PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 366 | CHWEFROR 2014










## Storm Chwefror

Lluniau: Thomas Scarrott





Coeden ar draws y ffordd ger Eglwys Llangorwen a charafan chwythwyd drosodd ym maes Carafanau Glan-y-môr, Clarach yn y storm ar 12 Chwefror.

Llun: Iestyn Hughes



Y tân ar Gors Fochno fore dydd San Ffolant – Chwefror 14.

## Enillydd coron



Llongyfarchiadau i Elin Haf, Bryncastell, Bow Street enillodd y goron eleni yn Eisteddfod Ysgol Penweddig. Da iawn ti Elin!

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Rhodri Morgan**
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dai Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Mawrth

**Deunydd i law: Mawrth 7 Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 19**

**CHWEFROR 19** Nos Fercher Glaw a hindda - blwyddyn trwy'r lens - Iestyn Hughes yn dangos ei luniau. Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30. Bydd cyfle i brynu cardiau o'r lluniau am bris gostyngol.

**CHWEFROR 21** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am hanner tymor

**CHWEFROR 21** Nos Wener Byd Llên: pori yma ac acw. Gwerfyl Pierce Jones yng Nghymdeithas y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**CHWEFROR 26** Nos Fercher Cymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion yn Yr Hen Ysgoldy Llanddeiniol am 8.00

**CHWEFROR 27** Nos Iau Clwb CIC Noswyl at achos da Zoe Glynne Jones gyda Zoe Glynne Jones yn festri'r Garn 19.00 hyd amser brecwast.

**CHWEFROR 28** Nos Wener Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas Gymraeg y Borth yn Llety Parc, Aberystwyth am 7.30 o'r gloch. Gwesteion: Robyn a Lona Mason. Enwau i Llinos 871615 cyn 21 Chwefror.

**MAWRTH 1** Nos Sadwrn Noson Cawl a chân gyda Linda Griffiths a'i merched yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Gweinir y cawl am 7.00; adloniant i ddechrau am 8.00. Tocynnau £7 (oedolion) £2 (plant) Ffoniwch 832448 ar ôl 6.

**MAWRTH 1** Nos Sadwrn Gig Dathlu Dewi yn y Belle Vue o 9.00 tan 1 y bore gyda #Band6 yn canu eich hoff ganeuon a disgo Cymraeg. Tocynnau £7 (£8 wrth y drws) ar gael o'r Siop Leol, y Belle Vue, Inc neu Siop y Pethe. Am fwy o fanylion ffoniwch Emlyn 07980 714019

**MAWRTH 1** Nos Sadwrn Cyngerdd i'r Galon Dydd Gŵyl Ddewi gyda Chantorion Colin Jones, Sophie Rudge (Soprano) a Tomos Mathias (Feiolin) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30 Tocynnau £10 ar gael o Inc, Cangen Santander, Siop y Pethe, Canolfan y Celfyddydau a Rowland Joens (01974 241 328)

**MAWRTH 2** Nos Sul Cyngerdd yr Hen Ganiadau yn y Tabernacl, Machynlleth am 7.30. Dai Jones, Llanilar yn cyflwyno Mary Lloyd Davies, Sioned Wyn, Eirian Owen (Cyfeilydd), Aled Wyn Davies, Andrew Evans, Erfyl Tomos Jones, Tom Gwanas a Trystan Lewis. Er budd Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau 2015 (Apêl Bro Ddyfi). Tocynnau £10 (plant £5) ar gael oddi wrth Dennis Jones (01654 761500) neu Aled Pentremawr (07759 833335).

**MAWRTH 3** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn ailagor ar ôl hanner tymor

**MAWRTH 4** Nos Fawrth Twmpath Dawns yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth am 7.30. Trefnir gan Glwb Gwawr Aberystwyth

**MAWRTH 4** Nos Fawrth Ynyd. Noson Grempog; adloniant gan Cantre'r Gwaelod yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.00

**MAWRTH 6** Dydd Iau Diwrnod y Llyfr

**MAWRTH 6** Dydd Iau Nos Iau Noson cawl a chân yng nghwmni Cantre'r Gwaelod yn Festri Horeb, Penrhyn-coch am 6.30 £5

**MAWRTH 13** Nos Iau Clwb CIC Diwrnod y Llyfr gyda Meinir Edwards o'r Lolfa Festri'r Garn am 7.00

**MAWRTH 15** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn Gŵr gwadd: Rhodri Llwyd Morgan

**MAWRTH 21** Nos Wener Eisteddfod fach ni dan ofal Arwel 'Rocet' Jones. Cymdeithas y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**MAWRTH 28** Nos Wener Noson gyda Sgarmes yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth am 7.30 Pris £20 (cynnwys bwyd) Elw i'w rannu rhwng Sioe Sir Aberystwyth Ceredigion ac Ambiwlans Awyr Cymru.

**EBRILL 4-5** Nos Wener a Dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

## Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

## Y Tincer ar dâp

Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Ionawr 2014.**

£25 (Rhif 93) Gaenor E Jones, Hafle, Bow Street
£15 (Rhif 45) Richard Owen, 3 Glan Ceulan, Penrhyn-coch
£10 (Rhif 22) Mair England, Pantyglyn, Llandre

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Ionawr 15
Os oes rhai eisiau ymuno â Chyfeillion Y Tincer cysylltwch â Bethan Bebb.
£5 y flwyddyn.



## 30 MLYNEDD YN OL

John Jones yn gwylio John Jones arall yn cadw y gêm pŵl i fynd yn y gêmau noddedig. (O'r *Tincer* Chwefror 1984) Llun: Hugh Jones

### Age Cymru Ceredigion

Mae gan Age Cymru Ceredigion rwydwaith gref o wirfoddolwyr a rydyn ni'n chwilio am bobl drugorog twymgalon i ymuno â'n tîm. Ar hyn o bryd, mae gennym y swyddi canlynol ar gael:

* Cyngor a Gwybodaeth
* Gofal Ewinedd Cymdeithasol
* Cymorth Gweinyddol
* Gwirfoddolwyr ar gyfer grwpiau cymdeithasol
* Cymorth Cymunedol

Yn cynnwys hyfforddiant a chefnogaeth

Mae gwirfoddoli efo Age Cymru Ceredigion yn ffordd wych o gymryd rhan yn eich cymuned, dysgu sgiliau newydd a chwrdd â phobl newydd. Am fwy o wybodaeth, peidiwch ag oedi cysylltu â ni.
Sioned Lewis 01970 615 151 / 07772 036 200
Carol Williams 01545 570 055 / 07772 036 319

### Cynllun Cyfeillion Morlan

Ers agor ei drysau am y tro cyntaf yn 2005 mae canolfan Morlan wedi hen sefydlu ei hun fel un o brif ganolfannau Aberystwyth o ran cynnal digwyddiadau, arddangosfeydd, ffeiriau a chyfarfodydd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig defnyddiwyd y ganolfan gan dros gant o fudiadau a chymdeithasau hynod amrywiol, gan gyflawni'r nod o fod yn bont rhwng Capel y Morfa a'r gymdeithas ehangach.

Serch hynny, fel yn achos cynifer o sefyllfaoedd tebyg, mae'r esgid yn gwasgu'n dynn yn ariannol o gofio wrth gwrs fod angen gwaith ar yr adeilad yn ogystal a datblygu'r rhaglen waith fwy cyffredinol. Er mwyn cwrdd â'r gofynion hynny ac yn arbennig i'n galluogi i ddatblygu'r weledigaeth ymhellach rydyn ni'n ceisio am grantiau o amryw ffynonellau er mwyn gallu parhau i ddarparu'r adnodd am flynyddoedd i ddod.

Yn ychwanegol at hynny rydyn ni'n lansio **Cynllun Cyfeillion Morlan** fydd yn gyfle i gefnogi Morlan drwy gyflwyno rhodd fisol neu flynyddol er mwyn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at waith parhaus y ganolfan. Mae hwn yn gyfle pellach i roi Morlan ar seiliau cadarnach ar gyfer y dyfodol ac i sicrhau y gallwn gynnal a datblygu'r weledigaeth yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Os hoffech ddod yn gyfaill i Morlan neu am fwy o wybodaeth galwch mewn yn y ganolfan i gasglu taflen neu cysylltwch a Carol ar 01970 617996 neu ar ebost - morlan@aber.gmail.com. Gallwch hefyd lawrlwytho'r daflen o'r wefan - www.morlan.org.uk.

Diolch yn fawr.
Deian Creunant
Cadeirydd

**Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer**

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

# PENRHYN-COCH

**Oedfaon**
**Horeb**
**Chwefror**
23 2.30 Oedfa bregeth Gweinidog
**Mawrth**
2 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
9 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
16 2.30 Oedfa bregeth Sion Meredith
23 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog

**Eglwys Sant Ioan**
**Mawrth**
2 Sul - Cymun 10.45
5 Mercher (Lludw) Y Grawys Cymun 10.00
12 Mercher Cymun 10.00
19 Mercher Cymun 10.00
26 Mercher Cymun 10.00
9 Sul Boreol Weddi 10.45
16 Sul Cymun 10.45
23 Sul Boreol Weddi 10.45
30 Sul y Mamau Cymun 10.45

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 26 Chwefror a 12 a 26 Mawrth. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Shan a Byron Witts, 18 Glan Ceulan ar farwolaeth tad Shan - Terry Marshall o Rydaman yn Ysbyty Llanelli ar Ionawr 6ed.

### Tystysgrif

Llongyfarchiadau i Keith Morris, Preseli, am dderbyn tystysgrif yn ddiweddar oddi wrth Gwasanaeth Gwaed Cymru fel cydnabyddiaeth iddo am gyfrannu 50 peint o waed.



Cynhaliwyd Sioe Dalent gan Geidio Ceredigion ar 1 Chwefror yng Ngheinewydd gyda grant oddi wth Cered i hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd. Fe gymerodd naw uned ran o 7 i 87 oed. Cafwyd canu, ymgom a dawnsio o safon uchel iawn. Bu Brownies Penrhyn-coch yn dawnsio i gân allan o 'Jungle Book'.

### Marwolaeth

Trist oedd clywed am farwolaeth Albin Kowalczyk, Bromsgrove, gynt o Gwynley, ar 16 Ionawr ar ôl cyfnod byr o salwch. Fe'i ganwyd yn Luboni, Gwlad Pŵyl ym 1924 cafodd yrfa nodedig adeg y Rhyfel yn y Llynges a wedyn fel Peirianydd Hŷn Astudiaeth Gwaith gyda MEM Tyseley. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i deulu.

### Gwellhad Buan

Gobeithio fod Mrs Lynn Jones, Glan Seilo, yn gwella ar ôl y ddamwain a gafodd yn ddiweddar.

### Noson Gwis

Trefnwyd cwis gyda chaws a gwin ar gyfer nos Wener Ionawr 24ain yn Neuadd yr eglwys, ble cymerwyd rhan gan nifer o gymdeithasau o fewn y pentref. Y cwisfeistr oedd Robert Hughes Jones a fu'n gyfrifol am yr holl gwestiynau. Y Clwb llyfrau ddaeth yn gyntaf, ac aelodau Horeb yn ail. Diolch i bawb a gymerodd ran. Enillydd y cwis papur oedd Rose Neville, Trefeurig

### Canlyniadau Penrhyn-coch

11/01/2014
Tref Caernarfon 2 - 1 Tîm 1af Penrhyn-coch
Gêm Gyngrhair
Llanfechan 5 - 4 Eilyddion Penrhyn-coch
Cwpan Emrys Morgan

19/01/2014
Penrhyn-coch 4 - 1 Crannog

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Torri Gwrych a Strimmio, Disgownt i Bensiynwyr.
Ffôn 01974 261758
07792457816
(Nid oes yr un gwaith yn ormod)

C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU
DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN
I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

ytincer@googlemail.com

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Pete Davies, Y Ddôl Fach, sydd wedi bod yn yr ysbyty ond yn dal i ddisgwyl am driniaeth.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Mary Roberts, Ger-y-llan sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

### Eisteddfod

Cofiwch am ein heisteddfod yn Penrhyn-coch ar y 4/5 o Ebrill. Dewch yn llu i gystadlu ac i fwynhau. Fe allwn sicrhau croeso cynnes i chwi i gyd a ninnau yn dathlu 50 mlynedd o eisteddfota.

### Ffilm yn seiledig ar lyfr awdur lleol yn ennill gwobr

Roedd yna gysylltiad â'r pentref yng ngwobrau'r Oscars nos Sul 16 Chwefror pan enillodd y gwneuthurwr ffilm Kieran Evans wobr yn y categori début amlwg ysgrifennydd, cyfarwyddwr neu gynhyrchydd ffilm yn 2014 am ffilm yn seiliedig ar lyfr Niall Griffiths *Kelly and Victor* (Cape, 2002).

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau, 9fed o Ionawr fe gynhaliwyd ein cinio blynyddol yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch. Croesawodd Sue Hughes, ein llywydd, ni i gyd gan ddymuno noson hwylus a hapus i ni yng nghwmni ein gilydd. Yna fe ddymunodd pen blwydd hapus i Janis Morris ac fel y traddodiad fe ganwyd cyfarch i Janis. Fe ddiolchodd ein Llywydd i'r merched oedd wedi gwirfoddoli i helpu i ddefnyddio y "Defibrillator" sydd yn un o dri sydd yn cael eu gosod yn y pentre yn go fuan. Yna fe eisteddodd pawb i lawr i fwynhau y cinio. Fe draddodwyd y fendith gan Judith Morris. Cafwyd bwyd blasus a gwych a digon ohono. Ar ôl y cinio fe groesawodd ein llywydd ein gŵr gwadd, sef Cemlyn Davies, un o blant y pentre. Erbyn hyn yn adnabyddus i bawb fel newyddiadurwr gyda'r BBC a gwelir ef yn aml ar y teledu yn rhoi adroddiad ar ryw achlysur neu'i gilydd. Ar ôl rhoi dipyn o hanes ei waith aeth Cemlyn ymlaen i ddangos ar ffilm rhai o'r achlysuron oedd wedi bod ynghlwm â hwy. Dangosodd ei adroddiad pan fu yn Machynlleth pan oedd hanes y ferch fach April Jones yn ddigwyddiad ofnadwy ac fe ddangosodd i ni ffilmiau oedd yn mynd a fe dros y wlad a hyd yn oed i Loegr. Mae yn amlwg fod Cemlyn yn fachgen gweithgar iawn ac mae wedi dangos hyn i ni lawer gwaith wrth iddo fod yn weithgar yn y Penrhyn hefyd. Yr ydym fel pentre yn falch iawn ohono. Diolchwyd i Cemlyn yn swyddogol gan Mair Evans. Ac yna fel ei harfer fe gawsom rhigwm bach gan Mairwen:

Dyma ni yng nghinio blynyddol y gangen
Pawb yn mwynhau a bod yn llawen.
Ein Llywydd Sue fel arfer yn llawn hiwmor
A phawb wrthi yn gwneud eu rhan drwy'r tymor.
Diolch i chwi gyd am fod yn griw mor hapus
Ac wrth gwrs i Cemlyn am wneud ei waith mor gampus.
Mae Cemlyn heno wedi dangos inni maint ei ddawn,
Ac ein bod i gyd wedi mwynhau ei gwmni yn fawr iawn.
Diolch am y bwyd blasus a gawsom
Ac i bob un a fu yn gweini arnom.
Byddwch bawb yn garcus wrth fynd tua thre,
Noson wych arall, Hip, Hip, Hwre.

Tynnwyd raffl y noson ac fe aeth pawb gartref wedi noson fendigedig yng nghwmni ein gilydd ac yng nghwmni Cemlyn.


Cemlyn Davies


Twll arall yn nho Horeb ar ôl y stormydd diwethaf.

**Clwb Hanner Tymor Horeb Penrhyn-coch**

Cynhelir Clwb Hanner Tymor Horeb Penrhyn-coch ar foreau Llun a Mawrth, 24 a 25 Chwefror o 10.00-12.30yp. Croeso cynnes i blant ysgol gynradd 5 mlwydd oed i fyny.

Os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch â Judith ar 01970 820939 neu berwynfa@btinternet.com

**Cylch Ti a Fi**

Os oes gennych ddiddordeb mewn ail-gychwyn y Cylch Ti a Fi ym Mhenrhyn-coch, cysylltwch â Zoe ar 01970 611516 neu 07584411524 neu zoejones34@gmail.com


Y goeden y tu allan i Ysgol Penrhyn-coch a syrthiodd yn y storm ar 12 Chwefror.

# Adran Ieuenctid Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch

Roedd y Clwb yn un o 149 grwp gymerodd ran yng nghynllun Wish y Daily Post. Casglodd cefnogwyr y Clwb 7785 tocyn a chawsant £92.28 o'r cynllun. Hoffai y swyddogion ddiolch i ddarllenwyr fu'n casglu y tocynnau o'r papur. Diolch i Russell Hughes-Pickering ac Adam Hughes am y lluniau hyn.











COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Pennau

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.

Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

# 'Eisteddfod Fach ni'

Nos Wener, Mawrth 21 2014
Capel y Garn

Meuryn y tasgau : Arwel 'Rocet" Jones

## Y Tasgau

1. Darn o ryddiaith union 100 gair o hyd: Stormydd
2. Brysneges ar y llythyren S
3. Brawddeg o'r gair 'Gwynfor'
4. Gorffen Limrig

Rhyw ddiwrnod yn llys Cantre'r Gwaelod
Fe gafwyd trafodaeth reit hynod
------------------
------------------
-----------------------------------

5. Dau bennill: Cadair


Y cyfansoddiadau - gyda ffugenw – i'w rhoi os gwelwch yn dda i Janet neu Gareth William
neu yn y blwch pwrpasol yn y Capel erbyn **dydd Sul Mawrth 16**

**ytincer@googlemail.com**

# Taith gerdded y mis

## Pen-dam i Graigypistyll

**Man dechrau**: Safle bicnic ger Llyn Pen-dam
**Map**: OS Explorer 213 GR 710839
**Pellter**: 5.5 milltir – hawdd




Cerddwch ar hyd y ffordd heibio Llyn Syfydrin ac ymlaen dros bontbren ac adfael Bwlchstyllen. Yn syth ar ôl croesi nant Melyn trowch i'r chwith a dilyn llwybr uwchben Llyn Craigypistyll. Dros yr argae a'r afon Leri a dilyn y feidr yn ôl i Pen-dam.

# BLAS CHWEFROR GAN EICH PLAS LLEOL

### CACEN MÊL MYNACHOD

Mae'r gacen yma yn hawdd ei choginio ac yn blasu fel eich bod wedi bod wrthi am oriau! Defnyddiwch fêl cymysg ar gyfer y gacen ac ar gyfer mwynhad ychwanegol rhowch dipyn bach o fêl Nanteos drosti cyn ei gweini.
Mwynhewch! Nigel - Chef Patron

### Cynhwysion

440 gram o flawd plaen
15 gram o bowdwr codi
5 gram o soda pobi
1/2 lwy de o halen bwrdd
4 llwy de o sinamon wedi'i falu
1/2 lwy de o glofs wedi'u malu
1/2 lwy de o holl sbeis wedi'i falu
235 ml olew llysiau
340 gram o fêl
300 gram o siwgr gronynnog
95 gram o siwgr brown
3 wy mawr ar dymheredd ystafell
1 lwy de o rin fanila
235 ml o goffi neu dê cryf
120 ml sudd oren ffres
60 ml wisgi Cymreig (os y dymunwch)
Cnau pecan i addurno

### Dull

Cynheswch y ffwrn i 350°F.
Irwch eich tuniau pobi ac yna leiniwch â phapur memrwn sydd wedi ei uro'n ysgafn.
Cymysgwch y blawd, y powdwr codi, y soda pobi, yr halen, y sinamon, y clofs a'r holl sbeis mewn bowlen.
Gwnewch ffynnon yn y canol, ac ychwanegwch yr olew, y mêl, y siwgr gwyn, y siwgr brown, yr wyau, y fanila, y coffi neu'r te, y sudd oren a'r wisgi.
Gan ddefnyddio chwisg cryf, neu gymysgydd trydanol yn araf, cymysgwch yr holl gynhwysion i greu cytew trwchus. Gwnewch yn siŵr nad oes cynhwysion ar y gwaelod sydd heb eu cymysgu.
Arllwyswch y cytew i mewn i'r tuniau pobi; rydyn ni yn eu pobi mewn tun pobi torth. Bydd y cymysgedd uchod yn gwneud 3 neu medrwch ddefnyddio dau dun pobi cacen 9 modfedd sgwâr neu grwn.
Rhowch y tuniau ar ddau hambwrdd pobi ar ben ei gilydd; fe fydd hyn yn gwneud yn siŵr fod gwaelod y cacennau yn pobi yn gyflymach na'r canol a'r top.
Pobwch y cacennau tan eu bod yn sboncio yn ôl pan fyddwch yn pwyso eich bys ar ganol y gacen. Mae'r gacen yn cymryd tua 45-55 munud.
Gadewch y cacennau i orffwys yn y tuniau pobi am 15 munud cyn eu troi allan. Addurnwch gyda cnau pecan.





# Plas Nanteos

Chwilio am y Greal Sanctaidd

**Dydd Sadwrn Mawrth y Cyntaf 9.30yb**

Dathlwch Ddydd Gŵyl Dewi eleni gyda'n taith bws arbennig yn olrhain hanes un o arteffactau pwysicaf cyfnod Crist, y Greal Sanctaidd, a sut efallai y daeth i Nanteos yn ystod cyfnod Henry VIII a diddymiad y mynachlogydd.

Fe fyddwch yn ymweld ag Eglwys Henfynyw, ger Aberaeron, ag Abaty Ystrad Fflur, Pontrhydfendigaid, sydd dan ofalaeth CADW. Yna bydd cyfle i fwynhau picnic sydd wedi ei baratoi ar eich cyfer cyn symud ymlaen i Bontarfynach. Ar ôl mwynhau'r rhaeadrau syfrdanol awn yn ôl i Blas Nanteos am dê prynhawn blasus a chyfle i glywed am hanes y Plasty arbennig hwn.

£45 y person yn cynnwys picnic a the prynhawn

Nanteos, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4LU t:01970 600522
nanteos.com

# LLANDRE

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Betty Williams, Greenbank a Cis a Regina Jones, Bron y Gân a'r teulu ar golli brawd yng nghyfraith, sef Elvet Pugh, Tregerddan mis diwethaf.

Cydymdeimlwn hefyd a theulu Mr Vincent, Tanglewood, Lôn Glanfred a fu farw yn ddiweddar.

### Banc Bro

**Enillwyr Chwefror 2014**

1. Glyn a Margaret Williams, Bryngolau - £30
2. Gilbert Jones, Llysnewydd - £20
3. Rhodri Morgan, Maes Mieri - £10

Mae angen i aelodau'r Clwb ail gofrestru ar gyfer 2014. Cysylltwch â'r Trysorydd Dai England, Pant-y-glyn, Llandre - Ffon: 01970 828693 daiamair@pantyglyn.freeserve.co.uk

### Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r-glyn

Bu Cangen Merched y Wawr Llandre yn dathlu'r flwyddyn newydd ar ddydd Sadwrn Ionawr 18fed trwy gael cinio blasus dros ben yn y Wildfowler, Tre'r-ddôl. Anfonwyd cofion at rai o'r aelodau oedd oherwydd salwch wedi methu ymuno a ni. Mynegodd Llinos Dafis ei hawydd i gychwyn Grŵp Trafod Llyfrau a dangosodd nifer o'r aelodau eu diddordeb. Cytunwyd i gyfarfod ar Chwefror 12fed yn nhŷ Llinos a gofynnwyd i Mair gysylltu â'r Llyfrgell er mwyn sicrhau cyflenwad o lyfrau. Edrychwn ymlaen at gyfarfod mis Chwefror pan fydd Glan Davies o Sefydliad Prydeinig y Galon yn talu ymweliad â`r gangen.

### Dymuniadau gorau

Danfonwn ein cofion at Ann Thomas, Glyncoed, sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Tregerddan.

### Swydd Newydd

Dymuniadau gorau i Delor Harvey, Lôn Glanfred, ar ei swydd newydd gyda Chyngor Sir Ceredigion.

### ICH LIEBE DICH

**Ynys y Cariadon yn Cyrraedd Yr Almaen**

Mae darlun olew a gafodd ei baentio yn Llanfihangel Genau'r-glyn wedi ei werthu yn annisgwyl i gasglwr celf o'r Almaen. Mae Ynys Llanddwyn ar arfordir Sir Fôn yn adnabyddus i ni Gymry fel cartref Dwynwen, Santes Cariadon Cymru. Roedd y llun wedi dal llygaid y prynwr o'r Almaen oedd ar wyliau yng Nghymru pan ymwelodd ag oriel gelf yn Abergwaun. Yn ôl



Myles Pepper, Cyfarwyddwr yr Oriel fe ddychwelodd y prynwr yn hwyrach er mwyn diogelu'r llun ac wedyn trefnwyd i'w anfon i'r Almaen.

"Mae Ynys Llanddwyn yn gyfareddol ac mae'n hawdd iawn cwympo mewn cariad â'r lle.

"Wrth weithio ar y darlun roedd wedi taro fy meddwl bod siawns y byddai rhai o gariadon rhamantus Cymru yn dangos diddordeb ynddo ond freuddwydiais i erioed y byddai'n cael cartref yn yr Almaen.

A ninnau wedi bod yn dathlu Dydd Santes Dwynwen ar ddiwedd Ionawr roedd hyn yn sypreis ac yn newydd da ar ddechrau blwyddyn newydd" medde Wynne.

## Treftadaeth Llandre

**RHAGLEN 2014**

**27 Chwefror**
Bwyeill llaw ffint hynafol a - Terry Bailey gasglwyd o bob cwr y Byd

**27 Mawrth**
Atgofion faciwî yng Ngorllewin Cymru - Tecwyn Jones

**24 Ebrill**
Manylion i'w penderfynu

**29 Mai** - Dim cyfarfod

**7 Mehefin**
Agoriad swyddogol o Lwybr Treftadaeth Llefydd Llonydd

**26 Mehefin** - Dim cyfarfod

**31 Gorffennaf**
Taith ddirgel ar fws

**28 Awst** - Dim cyfarfod

**25 Medi**
Sampleri - Eluned Rowlands

**30 Hydref**
Masnach gynnar ar Afon Dyfi - Barbara Walker

27 Tachwedd
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

a

Peint o Hanes, os gwelwch yn dda - Nigel Callaghan

Cynhelir cyfarfodydd fel arfer yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre nos Iau olaf y mis, gan gychwyn am 7.30 yh

Aelodau (£5 tanysgrifiad) - mynediad am ddim. £2 y cyfarfod i bawb arall

Ysgrifennydd:
Roger Haggar, Sycamores, Llandre, SY24 5BX
Ffôn: 01970 820314
(07582 743061)
rogerhaggar@llandre.org.uk

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

ytincer@googlemail.com

# Y BORTH

### Marwolaethau

Trist yw cofnodi marwolaeth yng Nghartref Gofal Min-y-môr, Aberaeron ar 14 Ionawr Idris Wynne Jones, gynt o Panteg, y Borth - tad Eileen, Wyndham, Ossie a'r ddiweddar Elizabeth. Cynhaliwyd gwasanaeth preifat yn Amlsogfa Aberystwyth ar Ionawr 23ain. Estynnwn ein cydymdeimlad âr teulu.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu y diweddar Elfed Lewis, Bryn-y-môr, fu farw yn ei gartref ar 29 Ionawr. Cynhaliwyd yr angladd dydd Gwener 7 Chwefror yn Eglwys St Matthew. Cydymdeimlwn â brawd a chwaer Elfed - Gwynfor a Heulwen Lewis a'r teulu, a Llywela a Peter Bourne a'r teulu.

Hefyd â theulu Dr. Cynwy Davies, fu'n Feddyg Teulu yn y Borth am flynyddoedd, fu farw ar Chwefror 9fed ar Benrhyn Cilgwri (Wirral). Cynhelir gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Aberystwyth dydd Gwener 21 Chwefror am 2.30.

Bu farw Islwyn Jones, Y Wennol, yng nghartref Abermad yn 96 oed. Cydymdeimlwn â'i weddw Eveline, ei ferch Delyth Smith a'i wyres Seren, a'i phartner Ben ym Mhenrhyn-coch.

### Brysiwch wella

Da yw deall fod Mrs. Eirwen Owen, Gwesty'r Railway, yn gwella ar ôl cael clun newydd yn Ysbyty Bron-glais.

### Cymdeithas Henoed y Borth

Cafodd henoed y Borth Nadolig a Chalan prysur iawn. Mwynheuwyd ymweliad â'r pantomeim yn Aberystwyth gan bawb. Diolch i gwmni y Wardens a'u cyfeillion am adloniant cystal. Bu'n rhaid gohirio ein parti Calan, oedd i fod ar ddechrau Ionawr, oherwydd y llifogydd a effeithiodd ar rai aelodau hŷn, a salwch.

Felly yr wythnos hon cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a pharti Calan ar y cyd. Yn y Cyfarfod Blynyddol sylweddolwyd mor brysur y buom yn ystod y flwyddyn a chofiwyd am ddau a gollwyd - Bryan Hartland – a fu'n aelod ers blynyddoedd ac Ann Lewis oedd yn aelod gweddol newydd.

Rydym yn awr yn edrych ymlaen am flwyddyn brysur, ddiddorol yn llawn sialensau yn 2014. Gwariwyd llawer o arian y llynedd ar bedwar trip, te partis a chinio Nadolig. Diolch i'n hymdrechion codi arian a haelioni Pwyllgor Carnifal y Borth ac Ymddiriedolaeth y Fonesig Lady Grace James gobeithiwn wneud yr un peth eleni. Llongyfarchiadau i Dot Poole a Roy Darby dderbyniodd dystysgrifau am bresenoldeb 100% yng nghyfarfodydd y llynedd. Ail etholwyd yn ddi-wrthwynebiad Mrs. Ann Newby, fel Llywydd a Betty Horton, fel Cadeirydd. Diolchwn i'r gwirfoddolwyr canlynol am gytuno i fod ar y Pwyllgor newydd i ofalu y bydd yr holl swyddi sydd angen eu gwneud yn digwydd wrth redeg grwp o'r fath: Pat P., Sylvia, Brian, Freda, Betty, Ann, Cecilia, Elizabeth, Chris S., Pat K., Jean, Rosa a Joy. Cysylltwch â Betty ar 871135 neu Joy ar 871649 am fwy o fanylion.

### Ysgol Sul St Matthew

Cynhaliwyd gwasanaeth Cristingl yn yr eglwys dydd Sul onawr 26ain. Roedd plant ac ieuenctid wedi gwneud Cristingls y Sul cynt. Fe'u gwneid gydag oren i gynrychioli y ddaear lle rydym yn byw, cannwyll i gynrychioli'r Iesu, goleuni y byd ; y band coch yn cyrychioli gwaed yr Iesu a gollwyd ar y groes am bechodau pawb a'r pedair ffon gyda melysion a ffrwythau yn cynrychioli y ffaith fod Duw yn ein bwydo ym mhedwar tymor y flwyddyn. Dosbarthwyd Crtingls i'r holl gynulleidfa. Roedd yn wasanaeth pleserus dan ofal y ficer, y Parchg Cecilia Charles, yn cael ei chynorthwyo yn y darlleniadau a'r gweddïau gan aelodau hynaf yr Ysgol Sul - Meg, Andrew, Sam, Toohey, Josh & Lili yn cael eu cynorthwyo gan Erin, Elfie, Louise ac Ioan. Cofiwn yn amser Cristingl am holl blant y byd, rhai ohonynt heb gartrefi, teulu, bwyd na chariad a rhown ddiolch am y bendithion a gawn ni. Gwelir y plant efo rhai o'r Cristinglau yn y llun.



Cofiwch y bydd croeso i chi yn unrhyw un o wasanaethau yr eglwys sydd am 11.15 ar fore Sul - Cymun a Boreol Weddi bob yn ail Sul gyda gwasanaeth teulu o leiaf unwaith pob deufis. Am fwy o wybodaeth am St. Matthew's, y Borth, cysylltwch â'r ficer ar 871889, Margaret ar 871056 neu Joy ar 871649. Byddwn yn falch o allu cynorthwyo.





### RNLI y Borth

Paul Boissier, Prif Weithredwr y RNLI, yn cyflwyno Bathodyn Arian a Thystysgrif i Margaret Griffiths, fu'n aelod o bwyllgor codi arian yr orsaf am flynyddoedd a bathodyn aur i Reolwr Gweithgareddau y Bad Achub Ronnie Davies, fu'n wirfoddolwr yn yr Orsaf ers iddi agor ym 1966.

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

ytincer@
googlemail.com

# llun y mis

**Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/**



Y goedwig hynafol "Cantre'r Gwaelod" rhwng y Borth ac Ynys-las.

# Diwrnod Treftadaeth Cymunedol – Y Borth ac Ynys-las

Yn ystod y gwanwyn a'r haf eleni fe fydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn dwyn ynghyd sawl blwyddyn o waith ar y Borth ac Ynys-las mewn prosiect archaeoleg gymunedol newydd wedi'i arwain gan yr archaeolegwyr cymunedol Kimberly Briscoe a Sarahjayne Clements.

Bydd y gwaith ar y Borth yn canolbwyntio ar ddatblygiad yr anheddiad, o'r dirwedd gynhanesyddol o ffendir a choedwig, sy'n dod i'r golwg o hyd ar y traeth, i bentref pysgota bach ac yna, yn ystod oes Victoria, i gyrchfan gwyliau glan môr llewyrchus.

Meddai Sarahjayne, "Gyda dyfodiad yr orsaf reilffordd ym 1863, daeth y Borth yn gyrchfan glan môr poblogaidd. Cafodd Gwesty'r Grand a Gwesty'r Cambrian, ger yr orsaf, eu codi yn ystod y cyfnod yma, er bod Gwesty'r Cambrian wedi'i ddymchwel erbyn hyn. Cafodd Eglwys Sant Mathew ei chodi ym 1879 yn sgîl adeiladu'r rheilffordd a'r buddsoddiad yn y diwydiant ymwelwyr. Mae pensaernïaeth y Borth yn ddiddorol iawn gan fod sawl gwahanol arddull yma."

Yn Ynys-las bydd y prosiect yn edrych yn arbennig ar fethiant datblygiad arfaethedig ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg i greu cyrchfan gwyliau moethus yma ac ar y maes rocedi milwrol o'r Ail Ryfel Byd a sefydlwyd yng nghanol y twyni tywod.

Dywedodd Kimberly, "Mae twyni Ynys-las yn cuddio llu o gyfrinachau. Bellach yn Warchodfa Natur Genedlaethol Dyfi, mae hanes llai heddychlon o lawer i'w ddarganfod yn y twyni fel y tystia olion megis y lloriau, amddiffynfeydd ac adeiladau concrit a oedd ar un adeg yn rhan o faes profi rocedi arloesol yn yr Ail Ryfel Byd. Ac mae llawer i'w ddatgelu o hyd."

I gychwyn y prosiect fe fydd y Comisiwn Brenhinol yn cynnal Diwrnod Treftadaeth Cymunedol yn ystod hanner tymor, ar Ddydd Llun 24 Chwefror am 3pm-7pm yn Neuadd Gymunedol Goffa'r Borth. A oes gennych unrhyw atgofion am y Borth ac Ynys-las? Dewch heibio a dywedwch ragor wrthym am eich treftadaeth!



**Golygfa o'r gorffennol: pentref y Borth o'r awyr ym 1949, wedi ei dynnu gan Aerofilms. ©Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

# MADOG, DEWI A CEFN–LLWYD

**Oedfaon Madog**
2.00
**Chwefror**
23 I'w drefnu
**Mawrth**
2 Oedfa'r ofalaeth – Gŵyl Ddewi
9 Gwyn Davies
16 Bugail
23 J.E. Wynne Davies



Clywyd sawl cyfarchiad ar y radio i ddymuno pen blwydd hapus arbennig i Tegwyn Rhos-goch . Pan aeth Cantre'r Gwaelod i gynnal noson i Ledrod cyflwynwyd cacen arbennig gan Beti Griffiths i ddathlu y pen blwydd!

## Eisteddfodau'r Urdd 2014

**MAWRTH 11** Dydd Mawrth. Rhagbrofion Eisteddfod cylch Aberystwyth yn Ysgolion cynradd y cylch
**MAWRTH 11** Dydd Mawrth. Eisteddfod Uwchradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Penweddig
**MAWRTH 12** Dydd Mercher. Eisteddfod Ddawns Cynradd ac Uwchradd, cylch Aberystwyth yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth
**MAWRTH 12** Dydd Mercher. Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Pen-glais
**MAWRTH 13** Dydd Iau. Eisteddfod Offerynnol Cynradd ac Uwchradd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Pen-glais
**MAWRTH 22** Dydd Sadwrn. Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00
**MAWRTH 24** Nos Lun. Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion Aelwydydd yr Urdd yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth am 6.00.
**MAWRTH 26** Bore Mercher. Eisteddfod Ddawns Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 10.30
**MAWRTH 28** Dydd Gwener. Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.00 yb

# O'r Cynulliad – Elin Jones



Fel y soniais mis diwethaf, doedd hi ddim yn anodd rhagweld y byddai ein Gwasanaeth Iechyd yn hoelio llawer o sylw yn ystod 2014. Roeddwn yn flin iawn pan gyhoeddodd y Gweinidog y byddai sefyllfa'r uned famolaeth yn Ysbyty Bron-glais yn cael ei adolygu unwaith eto.

Does dim sicrwydd ar beth fydd y cynllun eto. Dywedodd y Gweinidog na fyddai unrhyw newid tan ar ôl yr adroddiad ar ddyfodol gwasanaethau yn y canolbarth, ac ar ôl gwelliannau yn y drefn o gludo cleifion mewn argyfwng. Ond mae'n glir mai canoli gwasanaethau yng Nghaerfyrddin fyddai delfryd y Bwrdd Iechyd. Mae'n rhwystredig gorfod ymladd yr un brwydrau yn barhaus, ond mae gwasanaeth mamolaeth Bron-glais mor bwysig i bobl canolbarth Cymru nes mai ymladd sydd raid. Rhaid hefyd edrych tua'r dyfodol ac roeddwn yn falch o lansio cynllun newydd y Blaid fydd yn anelu at recriwtio 1,000 o ddoctoriaid newydd i'n Gwasanaeth Iechyd.

Ansicr yw dyfodol cynlluniau Ysbyty Aberteifi hefyd. Mewn cyfarfod diweddar gyda phrif swyddogion Bwrdd Hywel Dda, ches i ddim sicrwydd y byddai ysbyty newydd, sy'n cynnwys yr holl wasanaethau mae pobl yr ardal yn ei ddisgwyl, yn cael ei adeiladu'n gyflym. Rwy'n gobeithio cwrdd yn uniongyrchol gyda'r Gweinidog ar y mater yma yn fuan, ac mae'r ddeiseb anferth a drefnwyd gan y Cyngor Tref a Chyfeillion yr Ysbyty yn dyst i deimladau cryfion trigolion yr ardal.

Mae'r ymateb a fu i'r stormydd a darodd ein arfordir ar ddechrau'r flwyddyn hefyd yn adlewyrchiad cryf o ymdeimlad o gymuned. Yn ogystal a gwaith caled y gwasanaethau brys, staff y cyngor ac asiantaethau eraill, daeth pobl at ei gilydd yn wych i roi lloches i bobl, codi arian i helpu pobl a ddioddefodd o'r llifogydd yn Aberteifi, a chlirio tywod a difrod yn Aberystwyth, y Borth a Llangrannog.

Daeth dwy eitem o newyddion da y mis yma hefyd. Wedi ansicrwydd hir, gwrandawodd y Gweinidog Treftadaeth ar yr hyn yr oeddwn i ac eraill wedi bod yn ei ddweud ers misoedd, a diogelwyd dyfodol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, sy'n cyflogi 50 o staff ym Mhlas-crug. Hefyd, adroddodd pwyllgor ar ei syniadau am greu Parth Datblygu Lleol yn nyffryn Teifi. Mae potensial i'r cynllun roi hwb gwirioneddol i fusnesau bach lleol, ac edrychaf ymlaen at y Llywodraeth yn rhoi hyn ar waith yn fuan.

# Colofn Enwau Lleol
## Tŷ Jeri Bach Gogerddan

Bydd rhai o ddarllenwyr *y Tincer* yn cofio adfeilion bwthyn ar fin y ffordd ar waelod Rhiw Siôn Saer, gerllaw Dorglwyd a'r troad am Gomins-coch. Cafodd ei ddymchwel er mwyn lledu a sythu rhywfaint ar y briffordd.

Yr enw ar y bwthyn ar fapiau'r OS yw *Ivy Cottage*, a hynny mae'n debyg am y gorchuddid ef gan eiddew, ond dengys Cyfrifiad 1841-81, ynghyd â cherrig beddau o'r un cyfnod yn eglwys Llanbadarn, y câi ei alw'n *Gorffwysfa* yn ogystal.

Ar lafar ar ddiwedd yr 1950au fodd bynnag, câi'r bwthyn ei adnabod fel *Tŷ Jerri Bach Gogerddan*, a hynny mae'n debyg am iddo fod unwaith yn gartref i Jerri Bach neu Jeremiah Wood (1778?-1867), gŵr a hanai o linach cerddorol Abraham Wood y sipsi, ac a fu'n delynor i deulu Pryse, Gogerddan, am dros hanner can mlynedd.

Os gwyddoch chi am enwau diddorol ar dai sydd bellach wedi diflannu, cofiwch roi gwybod.

**Angharad Fychan**
**Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru**
**www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org**

# Ceredigion

Yn ddiweddar cyhoeddwyd y rhifyn diweddaraf o gylchgrawn Cymdeithas Hanes Ceredigion - *Ceredigion*. Ymhhlith erthyglau difyr mae un gan yr Athro Harold Carter, Bow Street ar The Welsh language in a Cardiganshire village at the turn of the nineteenth century (a'r pentref yw Bow Street) ac un gan William Howells, Penrhyn-coch ar Bethania, Eglwys y Bedyddwyr, Aberteifi: enghraifft o fudo yng Ngheredigion yn oes Fictoria.

Mae y cylchgrawn ar gael i aelodau – a gellir prynu copïau am £5 oddi wrth Helen Palmer yn Archifdy Ceredigion neu oddi wrth Eirionedd Baskerville, Penygeulan, Abermagwr, Aberystwyth SY23 4AR nonbaskerville@btinternet.com

# Apêl Elain



Cynhaliodd Côr ABC eu cyngerdd Nadolig "Lux Aeterna" yn Eglwys Llanbadarn ar y 4ydd o Ragfyr 2013. Llwyddwyd i godi £1,500 tuag at Apêl Elain. Yn ddiweddar cyflwynodd aelodau o'r côr y siec i Mr. Gareth James, tad Elain. Yn y llun mae Arwel George, Annwen Jones, Gwennan Williams, Gareth James (tad Elain), Luned Roberts, Jane Shaw, Denise Morgan, Julie Davies, Sian Wyn a Heather Williams.

# BOW STREET

**Oedfaon y Garn 10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/**
**Chwefror**
23 W.J. Edwards

**Mawrth**
2 Oedfa'r ofalaeth – Gŵyl Ddewi
9 Gwyn Davies
16 Bugail
23 J.E. Wynne Davies
30 Aled Edwards

**Noddfa**
**Chwefror**
23 10.00 Gweinidog Cymundeb

**Mawrth**
2 10.00 Uno yn y Garn
9 3.30 Uno yng Nghartref Tregerddan
16 10.00 Trefn lleol
23 2.00 Gweinidog Cymundeb
30 5.00 Gweinidog

### Pen blwydd hapus!

Dymuniadau gorau i Lila Piette, Llys Hedd, ar ddathlu pen blwydd arbennig iawn yn ddiweddar.

### Merched y Wawr Rhydypennau

Croesawodd ein Llywydd, Mrs M Beech Hughes, yr Aelodau i'r Cyfarfod a dymunodd Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Dymunodd wellhad buan i Mrs Mair Lewis a oedd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar.

Croesawyd Mererid Jones o Gyngor Sir Ceredigion i'r cyfarfod. Diolchodd Mererid i'r Aelodau am ei gwahodd i'r cyfarfod er mwyn trafod ailgylchu.

Esboniodd Mererid fod y prosesau ailgylchu wedi symud ymlaen a bod preswylwyr Ceredigion bellach yn gallu cynnwys llawer mwy o eitemau yn y bagiau ailgylchu clir wythnosol a oedd yn cynnwys tybiau margarin ac iogwrt, ffoil glân, haenen lynu ac ati

Esboniodd Mererid ymhellach y broses a ddilynwyd ar ôl casglu gwastraff a gafodd ei gludo i Rydychen a'r prosesau a wnaed i dorri gwastraff i lawr ar gyfer defnyddio fel compost a hefyd ynni.

Roedd yn noswaith ddiddorol iawn gyda pawb yn cael y cyfle i gwestiynu a thrafod. Rwy'n siŵr roeddym wedi dysgu llawer ac yn enwedig y gall llawer mwy o'n gwastraff bellach gael ei ailgylchu.

Diolchodd Shan i Mererid am ei chyfraniad.

Enillydd Raffl mis Ionawr oedd Janet Roberts.

### Priodas

Llongyfarchiadau i Lisa Fenton, merch Auriel a'r diweddar Roger Fenton, Llanbadarn Fawr a Meirion Roberts, Bow Street, mab i Sylvia Smith ac Ifan Roberts ar eu priodas yng Ngwesty'r Conrah ar Ragfyr 31ain. Treuliwyd y mis mel yng Nghaer a byddant yn mynd dramor nes ymlaen yn y flwyddyn. Mae Meirion yn gweithio i Scottish Power a Lisa gyda 'Cymorth i Ferched'.



### CIC

Mae hi wedi bod yn fraint i gael bod yn rhan o rhedeg CIC yn y Garn ac mae wedi bod yn wych i adeiladu perthynas gyda'r ieuenctid sydd yn mynychu'r clwb. Ers y 'Dolig 'da ni wedi cael llawer o hwyl yn gwneud gwahanol bethau. Dechreuwyd y tymor gyda noson hwyliog o gêmau gwirion lle roedd yr ieuenctid yn chwarae amrywiaeth o gêmau megis bwydo ei gilydd chocolate moose tra'n gwisgo blindfold, a ceisio cael fferins allan o ganol blawd heb ddefnyddio dwylo. Gorffennwyd y sesiwn drwy wylio clip sydyn a oedd yn helpu ni i feddwl os oes mwy i fywyd na byw a marw.

Uchafbwynt y tymor i fi oedd y trip tu ôl i'r llenni yn y Llyfrgell Genedlaethol. Cawsom hwyl yn mynd i'r celloedd i weld amryw o lyfrau ac i'r Drwm i weld clip o hen ffilm 'Testamoni'. Ond, uchafbwynt y trip oedd cael y cyfle i weld Beibl William Morgan.

Mae llawer mwy o bethau wedi cael eu trefnu ar gyfer y tymor, ond hoffwn dynnu eich sylw yn arbennig at y 27ain o Chwefror pan fydd yr ieuenctid a rhai o'r gwirfoddolwyr yn ceisio aros yn effro trwy'r nos at achos da. 'Da ni am aros yn effro o 8yh hyd at 8yb trwy chwarae gêmau, addurno cacenni a gwylio ffilmiau. Os yda chi'n adnabod unrhyw un sydd yn gysylltiedig â'r clwb a fysech chi mor garedig a'u noddi nhw tuag at yr achos da.



Y Cynghorydd John Adams-Lewis, Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion a'i wraig Mrs. Morina Lewis yn cyflwyno blodau a cherdyn pen blwydd i Mrs. Aurora Williams ar achlysur ei phen blwydd yn gant a thri.



Y Cynghorydd John Adams-Lewis, Cadeirydd Cyngor Ceredigion a'i wraig Mrs. Morina Adams-Lewis yn cyflwyno blodau a cherdyn pen blwydd i Mrs. Rosie Evans ar achlysur ei phen blwydd yn gant ac un..

### Cydymdeimlad

Bu farw Mr Elvet Pugh, 45 Tregerddan, yn yr ysbyty ar ôl brwydr ddewr. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Llangorwen ar Ionawr 14. Magwyd Elvet yn Comins-coch, Machynlleth, a daeth i'r ardal yn was i Cynnull Mawr ac yna i Nantsiriol; ar ôl hynny ymunodd â MANWEB. Roedd Elvet yn briod â Gwen, un o ferched Ty'n Rhos Fach a chydymdeimlwn â Gordon y mab a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs David Pugh a'r teulu, 19 Tregerddan. Bu farw llysfam David, sef Mrs Ena Pugh, yn Erwyd (Erwood) yn 104 oed. Roedd Mrs Pugh yn un o efeilliaid ac mae ei chwaer, Mrs Lily Millward, yn dal i fyw yn Aberhonddu.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Mr Malcolm a Mrs Gwyneth Hunkin, 92 Bryncastell, ar enedigaeth ŵyr bach ar Ragfyr 17eg. Ganwyd Daniel, mab bach i Guto ac Adriana yn Llundain.

## AGOR DRYSAU

Rhwng y 1 – 4 Ebrill 2014 bydd ymwelwyr o bob cwr o'r byd yn teithio i Aberystwyth i fwynhau Gŵyl AGOR DRYSAU, Gŵyl Celfyddydau Perfformio Rhyngwladol Cymru i Gynulleidfaoedd Ifanc, a drefnir bob dwy flynedd gan Gwmni Theatr Arad Goch.

Dyma'r 8fed Gŵyl AGOR DRYSAU ac yn 2014 bydd y rhaglen yn fwy nag erioed gyda pherfformwyr o Valencia, UDA, Awstralia, Iwerddon, Ffrainc, Yr Alban, Yr Eidal a Chymru yn ymddangos yma.

Mae eleni yn flwyddyn arbennig iawn i'r cwmni yn ôl y Cyfarwyddwr Artistig Jeremy Turner, "Mae'r cwmni yn dathlu ei ben blwydd yn 25 yn 2014, ac fel rhan o'r dathliadau rydym yn gwahodd rhai o'n hen ffrindiau o wyliau blaenorol i ddychwelyd yma i berfformio'u gwaith diweddaraf ynghyd â nifer o ffrindiau newydd. Mae'r rhaglen yn un gyffrous iawn ac mae pob un yn edrych ymlaen."

Yn ystod yr Ŵyl cynhelir perfformiadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghanolfan Arad Goch, Canolfan y Celfyddydau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac o amgylch y dref. Bydd nifer o berfformiadau hefyd yn cael eu cynnal mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd hefyd cyfle i bobl ifanc mewn rhannau eraill o Gymru fwynhau'r arlwy rhyngwladol gan y bydd nifer o'r sioeau yn teithio i theatrau megis Aberteifi, Felin-fach, Caerfyrddin a Phontardawe.

Bydd yr arlwy yn gymysgedd o waith theatr, dawns, gwaith pypedau a pherfformiadau yn arbrofi gyda thechnoleg fideo a ffonau symudol. Yn ogystal â'r perfformiadau, cynhelir nifer o seminarau proffesiynol, gweithdai cerddoriaeth a gweithdai dylunio.

Ychwanegodd Jeremy, "Yn ogystal â rhoi cyfle i blant a phobl ifanc brofi'r arlwy rhyngwladol, mae'r Ŵyl hefyd yn gyfle i farchnata a gwerthu gwaith o Gymru i'r byd. Bydd oddeutu 30 o brynwyr a rhaglenwyr theatr proffesiynol yn treulio'r wythnos yn y dref."

"Bydd myfyrwyr yn derbyn sesiynau hyfforddiant ac yn cael cyfle i arddangos rhywfaint o'u gwaith yn ystod yr Ŵyl. Mae'n gyfle heb ei ail i rwydweithio gydag actorion a chynhyrchwyr proffesiynol o Gymru a'r byd. Cafodd sawl myfyriwr o Aberystwyth a Chaerdydd eu cyflogi o ganlyniad i AGOR DRYSAU 2012."

Caiff rhaglen yr Ŵyl ei lansio ar wefan AGOR DRYSAU yn ystod Ionawr 2014, felly sicrhewch eich bod yn ymweld â'r wefan i archebu eich tocynnau ac i ymuno yn y dathliadau pen-blwydd! Mae rhywbeth i bawb o bob oedran yn AGOR DRYSAU 2014.

www.agordrysau-openingdoors.co.uk

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Urdd y Benywod

Cynhaliwyd ein cinio blynyddol yng Ngwesty'r Hafod, Pontarfynach, pryd y daeth tri deg a thri o drigolion yr ardal i fwynhau pryd blasus o fwyd. Cafwyd gair o weddi gan Mike Maloney ac yna cafwyd noson o fwyta a chymdeithasu.

Nos Lun gyntaf yn Chwefror cawsom noson yng nghwmni teulu Crumplers Pantyddwyriw. Mae Maureen yn gwneuthur gwisgoedd ar gyfer perfformio dawnsfeydd yr Oesoedd Canol a daeth a'i ffrind Hilary gyda hi i fodelu y gwisgoedd yma. 'Roedd yn ddiddorol iawn i weld faint o amser a gwaith oedd yn mynd i mewn i wneud y gwisgoedd yma. Diolchwyd i'r teulu am noson ddiddorol iawn gan Gill Farthers.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i John ac Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, ar enedigaeth ŵyr, Gruff Ifan, mab i Eirian a Dylan Jenkins, Ty'n Castell. Mae ei ddwy chwaer fach Elan a Sara a'i gefnder Trystan yn falch iawn ohono. Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd.

### Profedigaethau

Mae nifer o bobl yr ardal wedi cael profedigaeth yn ystod y mis; estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Eurgain Ellis, Dol-haidd, ar farwolaeth ei mam-gu yn Lledrod; Vivian Morgan, Is-y Coed, ar farwolaeth ei gefnder yn Llan-non a John Lewis, Dolgamlyn, a gollodd ewythr yn Llanidloes.

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 20 Ionawr 2014, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Tegwyn Lewis, yn y gadair. Roedd Edwina Davies, Trefor Davies, Mel Evans, Shân James, Dai Mason (Cynghorydd Sir yn ogystal), Dai Rees Morgan, Richard Owen, Gwenan Price, Jeff Pyne ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd dau aelod o'r cyhoedd hefyd yn bresennol fel sylwedyddion, sef Mr G Thomas a Mr E Davies.

Materion yn codi – Parcio ger Maes Seilo: roedd Dai Rees Morgan wedi cyfarfod â Phil Bradley, Tai Ceredigion, ar y safle i drafod y posibilrwydd o gael rhagor o leoedd parcio ar y safle. Roedd Mr Bradley am gysylltu â Chyngor Ceredigion, a disgwylid adroddiad pellach ganddo.

Archebiant – trafodwyd yr archebiant ar gyfer 2014/15 a phenderfynwyd y dylid cadw at yr un swm â'r flwyddyn bresennol sef £13,000.

Ceisiadau am gymorth ariannol – trafodwyd y ceisiadau am gymorth ariannol a oedd wedi eu derbyn, a phenderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn: Neuadd y Penrhyn £500; Cymdeithas Cae Chwarae y Penrhyn (PATRASA) £400; Cymdeithas Cae Chwarae Pen-bont £350; Cyfeillion Tregerddan £750; Ambiwlans Awyr Cymru £250; Pêl-droed Ieuenctid y Penrhyn £350; Eisteddfod Penrhyn-coch £300; Y Tincer £250; Cymdeithas Rhieni Athrawon Ysgol Penrhyn-coch £200; Cylch Meithrin Trefeurig £200; Brownies Penrhyn-coch £250; Cymdeithas yr Ymddeolwyr £200. Roedd cais wedi dod am gymorth tuag at gynllun i goffau y Rhyfel Byd Cyntaf yng nghymunedau Ceredigion i'r gogledd o Aberystwyth. Y bwriad ar hyn o bryd oedd gwneud ffilm, ond nid oedd y manylion yn sicr eto. Felly cytunwyd y gellid ystyried cais am arian tuag at y cynllun hwn yn ystod 2014/15 heb orfod disgwyl tan Ionawr 2015 o reidrwydd.

Daethai cais hefyd am gymorth ariannol i drigolion Maesyrefail a oedd yn cael trafferth gyda'r cwterydd a chyda goleuo'r stad. Roedd hyn yn codi'n bennaf am nad oedd y stad wedi cael ei mabwysiadu gan y Cyngor Sir. Penderfynwyd na ellid cytuno i'r cais gan y byddai hynny yn gosod cynsail ar gyfer y dyfodol a gallai'r Cyngor gael llawer o geisiadau cyffelyb.

Cynllunio – fel y nodwyd yn Y *Tincer* diwethaf roedd cyfarfod arbennig o'r Cyngor wedi ei gynnal ar 2 Ionawr i drafod cais am godi tŷ ger Rhandir, ac roedd y Cyngor wedi penderfynu gwrthwynebu'r cais. Yn dilyn y cyfarfod roedd yr ymgeisydd, sef Ms Mearina Owen, wedi cysylltu â'r Clerc, ac wedi gofyn am gael trafod y cais gyda'r Cyngor yng nghyfarfod arferol y Cyngor ym mis Ionawr. Ar ôl trafod gyda'r Cadeirydd, roedd y Clerc wedi rhoi gwybod i Ms Owen y byddai'r Cyngor yn trafod ei chais am gyfarfod y mis hwn. Gan fod y Cyngor wedi trafod y cais cynllunio yn barod ac wedi anfon ei sylwadau i'r Cyngor Sir, ni welai'r aelodau fod llawer o ddiben i gyfarfod Ms Owen. Roedd y ddau aelod o'r cyhoedd a ddaeth i'r cyfarfod â diddordeb yn y mater a rhoddwyd hawl iddynt fynegi eu barn. Eglurodd y Cadeirydd wrthynt nad oedd gan y Cyngor unrhyw hawl i benderfynu ar faterion cynllunio, dim ond hawl i wneud sylwadau ar y ceisiadau. Gyda'r Cyngor Sir yr oedd awdurdod yn y materion hyn. Ymhellach nododd Dai Mason fod Ms Owen wedi ei ffonio ar ôl cyfarfod 2 Ionawr, ac wedi ei gyhuddo o gamarwain y Cyngor Cymuned yn y cyfarfod hwnnw parthed ei chais, ac o ganlyniad roedd hi'n bwriadu codi'r mater gyda Phrif Weithredwr Ceredigion. Fodd bynnag roedd yr aelodau a oedd wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod dan sylw, ac yn arbennig y Cadeirydd, yn gwbl gadarn nad oedd y Cynghorydd Sir wedi gwneud unrhyw sylwadau o blaid nac yn erbyn y cais, ac roedd wedi bod yn hollol niwtral yn y mater. Pe deuai cais am wybodaeth gan Brif Weithredwr y Sir, fe fyddai'r Cyngor yn dweud yn glir beth oedd y sefyllfa.

Cais cynllunio A130975 – cais oedd hwn am ganiatâd i ddatblygu 64 o dai ar dir yn eiddo i Mr a Mrs E R Jenkins, tir sydd ar y chwith wrth fynd at stad Glanseilo. Roedd y Cyngor wedi gwrthwynebu'n gryf fod y tir hwn wedi ei gynnwys fel tir datblygu o fewn y Cynllun Datblygu Lleol, ond roedd y Cyngor Sir wedi anwybyddu'r farn honno. Felly nid oedd diben mewn gwrthwynebu'r cais ond roedd y Cyngor yn dymuno tynnu sylw at broblemau datblygiad o'r fath, sef y pwysau ar y system garthffosiaeth, y ffaith y byddai datblygu sylweddol yn y pen yma i'r pentref yn golygu llawer mwy o draffig drwy'r pentref, a'r ffaith nad oedd palmant mewn sawl man i gerddwyr drwy'r pentref.

Materion eraill – tynnodd Gwenan Price sylw at y ffaith fod y mynediad i'r Caban Meithrin yn beryglus, a phenderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir edrych ar y mater. Tynnodd Mel Evans sylw at gangen beryglus uwchben y ffordd ger y fynedfa i safle picnic Gogerddan, a thynnodd Trefor Davies sylw at gangen beryglus ger pont Tangelli. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir.





## Penodi ficer newydd

Daeth newyddion da i'r ardal yn ystod y mis diwethaf pan gyhoeddwyd bod Esgob Tyddewi – Yr Esgob Wyn – wedi penodi'r Parchedig Andrew Loat yn Beriglor mewn Gofal dros eglwysi Llanbadarn, Elerch, Penrhyn-coch a Chapel Bangor.

Yn wreiddiol o Swydd Caint, ordeiniwyd ef i'r Eglwys yng Nghymru yn Llandaf ym 1987 a gwasanaethodd ym mhlwyf Llangynwyd gyda Maesteg. Dysgodd Gymraeg trwy gwrs WLPAN yn Llanbedr Pont Steffan. Ar ôl ail guradiaeth yn Llansamlet, ger Abertawe aeth i Sir Faesyfed i fod yn Rheithor pum plwyf bach ger Tref-y-clawdd am saith mlynedd, ac wedyn i Landrindod a Chefn-llys gyda Diserth am ddeng mlynedd. Ers tair blynedd mae'r Parchedig Loat yn ficer ar ddau blwyf sydd yn cynnwys wyth eglwys i gyd, yn ardal y Groes (Crossgates) i'r gogledd o Landrindod.

Rydym yn edrych ymlaen i'w groesawu i'n plith, ac i gydweithio gydag ef. Cynhelir y cyfarfod sefydlu nos Iau 8 Mai yn Eglwys Llanbadarn Fawr.


**Gwaith Bricio**

**R+R**

**Adeiladau newydd, Estyniadau, Gwaith Carreg, Patios**

**Rhod: 07815121238**
**Rich: 07709770473**

**SWYDDFA'R POST BOW STREET**

**NWYDDAU**
**MELYSION**
**CYLCHGRONAU**
**CARDIAU CYFARCH**
**PAPURAU DYDDIOL A'R SUL**

**JOHN A MARIA OWEN**


**MYNACH HANDYMAN**

**Cynnal a Chadw Tŷ, Gardd, Siediau a Tŷ Gwydr, Golchi Patio**

Rhoddir sylw i'r gwaith bach yna does byth amser gennych i orffen. Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

**Ffoniwch Meirion:**
**01974 261758**
**07792457816**

mynachhandyman@yahoo.com



eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website

newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org

William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ


# Colofn Mrs Jones

Fe roedd fy nain yn gredwr cryf mewn cadw'r Sabath. Ni wnâi unrhyw waith ar wahân i beth oedd yn wirioneddol hanfodol ei hun ac ni chredai y dylai neb arall wneud ychwaith. Yn fuan iawn fe ddysgai ei hwyrion a'i hwyresau na chaniateid chwarae yn y caeau ar ddydd Sul ac mai dim ond o anfodd y caniateid chwarae yng ngardd yr hewl fach ,yn wir, âi mor bell a gwahardd Lowri Lygoden a *Llyfr Mawr y Plant*, yn hytrach fe ddarperid fersiynau plant - ond plant oes Fictoria - o glasuron megis *Taith y Pererin* ac *Ardderchog Lu'r Merthyron* ( + lluniau a la video nasty) ar ein cyfer. Fe ddisgwyliai i'r rhai hynaf ddod i ben â'r Gweledigaethau ac, am ryw reswm,*Y Lôn Wen*, mae'n debyg ei bod hi yn gweld Kate yn ddigon tywyll a diflas fel nad oedd perygl i neb ei mwynhau....a hyn i gyd pan oedd ei mab yng nghyfraith y Parchedig yn rolio chwerthin uwch ben *Y Fuwch a'i Chynffon*...nid oedd fy nhad yn credu yn ei daliadau am y Sul ond ni allai ei rhwystro yn ei thŷ ei hun ac ni fedrai hithau wneud mwy na gwgu ar ei ddewis lyfr oherwydd confensiynau lletygarwch ond yr oedd y gweddill ohonom yn cael y Sul traddodiadol yn ei gyflawnder.

A mae hyn wedi gadael ei ôl arnaf innau.Nid wyf yn teimlo yn gysurus yn gwneud gwaith tŷ ar y Sul; byddaf yn clywed fy nain yn darogan gwae. Ond a minnau yn gweithio ambell i Sadwrn, nid oes gennyf ddewis weithiau ond ymroi. A roedd y Sul diwethaf yn enghraifft dda. Roedd gennyf lawer i'w ... wneud ac ar ôl bod yn yr eglwys, fe ddechreuais. Twtio a thynnu llwch yn f'ystafell wely a newid y cynfasau a'u golchi, hwfro yr ystafell fyw a glanhau'r ystafell ymolchi - dyna'r cynllun. Ac aeth pethau yn iawn. Am sbel, ynde. Roeddwn wedi penderfynu gwneud yr hwfro y peth olaf un fel y gallwn fynd o'r lolfa i'r cyntedd ac o'r cyntedd i'r llofft gan ysgubo wrth fynd. Dyma blygio'r peiriant i mewn a chychwyn. Neu fethu a chychwyn, yn hytrach. Yn lle gweryriad iach hwfyr newynog fe gafwyd pesychiad ochneidiol a distawrwydd. Trio eto. Yr un sŵn ond hyd yn oed yn wannach y tro hwn. Trio eto...dim sŵn o gwbl y tro yma ond fe welwyd llwch yn dod allan o'r lle ddylai lyncu ac arogl go annymunol. Fe roedd yr hen sugnedydd wedi marw neu o leiaf mewn coma. Ar hynny, fe beidiodd y peiriant golchi ei chylch wedi dod i ben, dim mwy..ond pan geisiais ei rhoi i droi a gwasgu dŵr allan o'r cynfasau, fe aeth hithau yn ffliwt. Roedd ei sŵn yn iawn ond yn lle troi rownd a rownd a gogrdroi yn ffri, bodlonai ar roi rhyw hanner sbonc go swil a dim mwy. Rhoddais y ffidil yn y to gan daeru fy mod yn clywed fy nain yn snecian chwerthin. Yr oedd gennyf angen rhywun callach na mi fy hun...facebook amdani - a mae'n rhaid fod fy nain yn cymeradwyo hwnnw achos ni fu trafferth â hwnnw - a galw am David Couling. Fe ddaeth, chwarae teg iddo, ac y mae'r hwfyr wedi gwella yn llwyr o'i ddiffyg traul ac yn llyncu a gweryru yn ffri. Ond y mae'r peiriant golchi wedi marw a rhaid prynu un newydd.

Yr wyf wedi prynu un newydd ond ni wn pryd y daw. Pan archebais hi ar-lein, fe ofynnais ym mlwch 'any comments' y ffurflen archebu a fyddent cystal ag anfon testun neu ebost i mi i gadarnhau ei dyfodiad gan esbonio fy mod i yn fyddar ac y byddai yn rhaid i mi drefnu amser i ffwrdd o'r gwaith i'w chroesawu. Cefais ateb trwy e-bost. Dim ond neges eiriol a anfonid.Ond arhoswch funud, fe ffonir fi pan fydd y gyrrwr awr neu lai o siwrnai oddi wrthyf. Hynny yw, ar ffôn fach. Ond na, nid yw'n bolisi anfon testun ac ni fyddent, ychwaith, yn fodlon siarad â rhywun arall i drefnu'r cludiant ond y maent yn fodlon ei gadael y tu allan i'r tŷ.....a dyna, i mi, grisialu y gwahaniaeth rhwng delio â gweithiwr lleol a delio â chwmni mawr.

A chyda llaw, nid problem y peiriannau oedd unig broblem y noson honno...pan euthum i eistedd i lawr yn y lolfa, fe ffiwsiodd y bylb.Y mae ambell i ddiwrnod y dylasid fod wedi ei dreulio yn y gwely o gyrraedd pob trybini....

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Chwefror**
23 5.00 Bugail

**Mawrth**
2 10.00 Oedfa'r ofalaeth - Gŵyl Ddewi yn y Garn
9 5.00 Bugail
16 10.00 W J Edwards
23 5.00 Bugail
30 10.00 Elwyn Pryse



### Nofwyr o fri

Yn sicr, rhaid bod Mrs Maggie Jones, Haulfryn, yn falch iawn o'i hwyrion, Tomos a Iestyn Watson, sydd yn amlwg yn nofwyr brwdfrydig. Yn ddiweddar mewn Gala " Millford Three Towers" yn agos i Ynys Afallon. (Dyna enw hyfryd am " Glastonbury") buont yn nofio mewn sawl ras, ac ennill medalau lu.

Enillodd Tomos bedair medal Aur yn y rasus canlynol. (400 medr Cymysg), (400 medr Rhydd), (200 medr Pili Pala) a (200 medr Cefn) ac un fedal Efydd yn y (100 medr Pili Pala). Enillodd Iestyn ei frawd hefyd fedal Aur (200 medr Cefn)

Da iawn fechgyn, a llongyfarchiadau; ymlaen a chi i'r Chwaraeon Olympaidd!! Meibion Mark a Jean Ann Watson yw Tomos a Iestyn, yn byw yn Mhant-y-Crug Capel Seion, ac wedi bod yn ffyddlon iawn i Ysgol Sul Pen-llwyn am flynyddoedd. Hwyl fawr iddynt i'r dyfodol.

### Cyfarchion

Dymuniadau gorau, a gwellhad buan i Mrs Gwenda Morgan, Cae'r Wylan, Llanbadarn sydd wedi derbyn llawdriniaeth feddygol yn ddiweddar.Bu Gwenda a Gareth yn ddeiliaid Dolberllan am flynyddoedd, ac y mae Gwenda yn dal yn aelod o Ferched y Wawr ac yn bresennol bob mis cyn ei salwch ddechrau'r flwyddyn. Hyderwn y bydd yn ôl yn fuan.

### Genedigaeth

Cofiwn am deulu Spink yn byw yng Nghefnmelindwr, a'r golled ar eu hôl pan symudasant i Newton le Willows i fod yn agos i'r plant. Mae gan John a Sian dri o blant, ac y mae Megan a'i phartner wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar i ferch fach. Llongyfarchiadau iddynt, ac hefyd i Nain a Taid.

Bu farw merch fach gyntaf John a Sian, heb ddim rhybudd yn y byd, rhywbeth oedd hyd yn oed y meddygon yn methu dweud yn iawn paham? Brawychwyd yr holl bentref a'r newydd trist hwn, a'r ferch fach ond pedair oed,newydd ddechrau yr ysgol Sul. Bethan oedd ei henw, a dyna mae Megan wedi galw ei baban – enw ei ddiweddar chwaer fach.

Pob dymuniad da iddynt, heb anghofio Dafydd a Huw, y ddau ewythr.

### Pasio

Mae y ddwy chwaer Kate a Ffion Williams, Brynrheidol, wedi bod yn llwyddiannus yn eu harholiadau ffidil. Kate Gradd 6 a Ffion Gradd 3. Da iawn chi a llongyfarchiadau. Daliwch ati.

### Cwmni Arad Goch

Mae Nannon a Luned Jones, Tangeulan, yn mwynhau mynd i glwb Blagur sy'n cwrdd ar fore Sadwrn ac yn agored i blant yr ardaloedd o gwmpas.

Mae'r plant Cynradd yn edrych ymlaen i'w perfformiad o Culhwch ac Olwen ar yr 22ain o'r mis hwn. Pob hwyl i Nannon a Luned, ac yn wir i bob un o'r plant sy'n cymryd rhan. Peth hyfryd yw clywed am artistiaid ifainc yn blaguro.

### Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Anita Owen oedd y wraig wadd yn ein cyfarfod ym mis Ionawr ac fe'i croesawyd gan Beti Daniel, y llywydd. O Fachynlleth y daw Anita Owen yn wreiddiol ond mae hi bellach wedi ymgartrefu ym Mhant-y-crug. Yn ferch ifanc ymunodd â'r heddlu'n Llundain a threuliodd ddeng mlynedd ar hugain yno. Cyn diwedd ei gyrfa roedd wedi cael ei dyrchafu'n sarjant. Clywsom ganddi am rai o'r troeon trwstan a ddaeth i'w rhan. Yn ystod y noson dangosodd luniau o'i hunan ar wahanol adegau yn ystod ei gyrfa a daeth â gwrthrychau gyda hi a ddefnyddiwyd ganddi yn ei gwaith. Beti Daniel ddiolchodd i'r wraig wadd. Gwenda Morgan a Delyth Davies oedd yn gyfrifol am baratoi'r te a darparu'r wobr raffl. Enillwyd y wobr raffl gan Lis Collison, ein hysgrifenyddes.

Ym mis Chwefror, croesawyd John Gwyn Jones o Gapel Seion atom gan ein llywydd. Braf hefyd oedd cael cwmni ei wraig Olwen. "Cardi ar y Paith" oedd teitl ei sgwrs. Soniodd wrthym fel roedd ei deulu, o ochr ei dad a'i fam yn hanu o Geredigion. Brodor o Flaenpennal yw John Gwyn Jones ac wrth iddo siarad am ei blentyndod cawsom ddarlun o gymdeithas yn ystod y cyfnod hwnnw. Yna aed â ni i Ben-uwch cyn symud ymlaen i Gapel Seion gan sôn am yr hyn oedd yn ymwneud â hwy yno ac am y pethau oedd yn bwysig iddo. Roedd wedi paratoi ei sgwrs yn ofalus ac yn ystod y noson cawsom weld sawl ffotograff a rhaglen. Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan Beti Daniel, ein llywydd. Roedd y te a'r wobr raffl y tro hwn yng ngofal mam a merch, sef Glenys a Llinos Jones. Enillwyd y wobr raffl gan Eirwen McAnulty, ein trysorydd.

Dymunwyd gwellhad buan i ddwy o'r aelodau a gafodd lawdriniaeth yn ddiweddar sef Gwenda Morgan a Mary Jones. Yn ystod y noson gwnaed y trefniadau angenrheidiol ar gyfer ein cyfarfod nesaf pryd byddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi.

### Eglwys Dewi Sant

Ar nos Wener, 6 Rhagfyr, cynhaliwyd noson goffi a raffl fawr yr Eglwys. Yn dilyn cafwyd adloniant hyfryd gan Meibion y Mynydd. Adloniant arbennig a diwylliannol dan arweinyddiaeth Caryl Jones gyda Susan Pugh yn cyfeilio. Braf iawn oedd gweld y neuadd yn llawn. Diolch yn fawr i bawb am y cymorth ac am wneud y noson yn llwyddiannus.

Yn ddiweddar, mi gasglwyd ac mi roddwyd £67.50 gan aelodau yr Eglwys tuag at Gronfa Ynysoedd Pilipinas.

Ar nos Sul, 22 Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth carolau yng ngolau'r gannwyll dan arweinyddiaeth Mrs Heather Evans. Mi ddarllenwyd naw llith gan y canlynol: Garth Hughes, Gwynfor Jones,

Heather Evans, Helen Hughes, Iris Richards, Lowri Jones, Margaretta Jones, Mia Howells a Nannon Jones. Yr organydd oedd Mr Maldwyn James. Braf gweld yr eglwys yn llawn o gynulleidfa. Cafwyd eitemau rhagorol gan Eleri Roberts, Anwen Roberts ac Eleri Jones. Mi addurnwyd yr eglwys yn hyfryd gan yr aelodau. I orffen, cafwyd paned a mins peis yn Neuadd yr Eglwys. Casglwyd £150.00 ar y noson ac mi roddwyd yr arian tuag ar Cymorth Dŵr (Water Aid). Diolch i bawb am y cymorth ym mhob ffordd.

### Cyngor Cymuned Melindwr

**Ceisiadau Ariannol**

A oes modd derbyn ceisiadau ariannol gyda mantolen ariannol i law'r clerc Meinir Evans, 22 Heol Isfoel, Llanrhystud, Aberystwyth. SY23 5BJ erbyn 15fed Fawrth 2014.

**Sedd wag Cyngor Cymuned Melindwr**

Mae sedd wag ar Gyngor Cymuned Melindwr. Os oes diddordeb neu angen rhagor o wybodaeth mae croeso i chi gysylltyu gyda'r clerc, Meinir Evans ar 01974 200 814 neu meinir.evans@Hotmail.co.uk.

Annwyl Olygydd

**Parêd Gŵyl Dewi Aberystwyth**

Mae'n siŵr i nifer o'ch darllenwyr fod yn rhan o Barêd Gŵyl Dewi Aberystwyth y llynedd. Yn sgîl llwyddiant y parêd cyntaf hwnnw penderfynwyd y bydd hwn yn ddigwyddiad blynyddol.

Mae Parêd eleni yn addo bod yn un cyffrous. Arweinir y Parêd gan y pibydd ifanc Gwilym Bowen Rhys, bydd y Plebs - band gwerin o ardal Merthyr Tudful yn chwarae, bydd Côr Meibion Aberystwyth yn canu, a Band Pres Aberystwyth yn ychwanegu eu cyfoeth seiniol hwy i'r bwrlwm. Ac yn ben ar y cyfan bydd yna glocswyr.

Gwilym a Megan Tudur yw'r tywyswyr gwadd eleni – a hynny mewn cydnabyddiaeth o'u cyfraniad i'r iaith a'r diwylliant Cymreig.

A gyda chefnogaeth y cyhoedd bydd strydoedd Aberystwyth - am awr o leiaf - yn fôr o Gymreictod. Dewch felly, dewch a baneri eich mudiad neu gymdeithas, dewch a'r Ddraig Goch neu Faner Dewi Sant, ond yn bwysicach na dim dewch a'ch hunan a'ch teulu a'ch ffrindiau.

Byddwn yn ymgasglu wrth gloc y dre rhwng 12:30 a 12:45 ar ddydd Sadwrn Mawrth 1af, yna am 1 o'r gloch cerdded i lawr y Stryd Fawr i Neuadd y Brenin ar Y Prom.

Ac nid yw'r miri yn gorffen yno. Bydd cyfle wedyn, ar ôl cinio efallai ym mwytai un o'n noddwyr – Y Lle Arall, MG's neu Baravin, i'r teulu cyfan, fynd i'r Llew Du yn Stryd y Bont erbyn 3pm, i fwynhau gig yn rhad ac am ddim gan Y Plebs.

Dewch felly i Aberystwyth, ar ddydd ein Nawdd Sant, i ni gyd-ddathlu ein balchder yn ein Cymreictod.

Yn gywir iawn
Dana Edwards
Ysgrifennydd Parêd Gŵyl Dewi Aberystwyth




## DÔL-Y-BONT

### Brysiwch wella

Anfonwn ein cofion at Mrs. Primrose Watkin, Pen-y-bont sydd wedi bod yn Ysbyty Bron-glais am ychydig. Gobeithio y bydd adre ac yn teimlo'n well yn fuan iawn.

Yr un yw'n dymuniadau i Defi Evans, Dolwerdd na fu yn dda yn ddiweddar. Gobeithio ei fod yn gwella.

**Gwersi Gitâr**
Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk
Gitâr i'r Cristion
01974 299367
Gwasanaeth Symudol
Dysgwch yn eich cartref
CYSYLLTWCH!

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**

- Iesu, yr aberth sy'n maddau (7.30, 12 & 26 Chwefror, 12 & 26 Mawrth, 9 Ebrill) – 5 sesiwn dan arweiniad Enid Morgan. Trefnir gan y grŵp C21 lleol.
- Bore Coffi a Chystadleuaeth Coginio Masnach Deg (10-12, 8 Mawrth). Manylion llawn ar y wefan.
- Rosa (7.30, 16-17 Mawrth). Cwmni Morlan yn cyflwyno drama gan John Roberts am Rosa Parkes. Mynediad: £3.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627


SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

ytincer@googlemail.com

# Llyfrau

Wil Griffiths *Mewn un cornel: cip ar fywyd cefn gwlad.* Gwasg Carreg Gwalch £7.50




Mae cyfrol newydd sydd ar fin ei chyhoeddi gan Wasg Carreg Gwalch yn codi'r llen ar gymuned fechan, wledig Cornelofan ger Aberystwyth. Mae Wil Griffiths yn edrych, fel trwy chwyddwydr, ar un cyfnod bach ym mywyd yr ardal, gan ymestyn tipyn arni er mwyn gweld rhwng y craciau a chael cip ar y da a'r drwg. Cawn yma hanes, hwyl a helyntion yr ysgol wledig, cymdeithas gyfoethog y siop fach leol yng nghegin tyddyn, diwylliant rhyfeddol caeadon y churns llaeth, yn ganu cocos ac yn ganu mwy celfydd, trybini a threialon bywyd bob dydd yn sŵn y tarw potel, y caban ffôn newyddbeth a'r lladd mochyn – ie, a'r rheibio hefyd. Heb sôn am y cymeriadau brith, y rhai hoffus a llai hoffus...

Dyma ddarlun byw a chyfoethog, mewn iaith rymus a lliwgar o'r gymdeithas wledig a fu ond cenhedlaeth go dda yn unig yn ôl. Ie, atgofion un gŵr, cymeriad o Gardi diwylliedig, ond atgofion sy'n canu cloch i'r rhelyw ohonom.

Cafodd rhan o'r gwaith hwn ei wobrwyo mewn cystadleuaeth gan Gymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion.

Mae'r awdur yn adnabyddus i bawb yn ei filltir sgwâr, a hyd yn ddiweddar cyfrannodd golofn fisol i Bapur Bro *yr Angor.* Mae'n amrywiol ei ddoniau o waith turnio coed i gasglu llestri te capeli wedi cau, a charafanio os bydd amser sbâr. Yn ei dro ymwelodd â bron pob cymdeithas yng Ngheredigion i sgwrsio ac i ddarlithio. Ei brif hobi yw cadw gwenyn fel yr esbonia yn ei lyfr *Dyn y Mêl* (Gwasg Carreg Gwalch, 2010). Ysgrifennodd yn gyson am y grefft hon mewn nifer o gylchgronau am dros ugain mlynedd. Am y llafur hwn derbyniwyd ef i'r orsedd dan yr enw 'Wil Cornel'.


Wedi cyfnod yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, a Choleg y Brifysgol Aberystwyth bu'n dysgu am nifer o flynyddoedd yn Aberdâr, lle y cyfarfu â Mair ei wraig. Ymhen rhai blynyddoedd wedi dychwelyd i Geredigion cafodd ofal Ysgol Cwmpadarn, Llanbadarn Fawr lle y bu'n brifathro am bum mlynedd ar hugain.

Bu'n aelod o Gyngor Sir Ceredigion gan wasanaethu fel Cadeirydd y Pwyllgor Addysg. Mae ganddo ef a Mair ddau fab, Hywel a Dylan.

Bydd y gyfrol hon yn cael ei lansio'n swyddogol ddiwedd Mawrth lle bydd cyfle i chi brynu copi wedi ei arwyddo gan yr awdur.

Mihangel Morgan *Pantglas*
Y Lolfa 192t £8.95

Mae ardal Llanwddyn yn un o'r llefydd mwyaf cyfareddol yng Nghymru gyfan. Gan fod chwaer fy nhad a'i theulu yn byw yno fe ddeuthum yn gyfarwydd iawn â'r lle dros y blynyddoedd. Yn awr, mae Mihangel Morgan wedi defnyddio hanes boddi'r cwm ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel sail i'w wythfed nofel.
Nid fod y nofel wedi ei lleoli yn sir Drefaldwyn chwaith.




Y Wenhwyseg yn hytrach na'r Bowyseg a siaredir gan y trigolion ac fe ellid dadlau fod y gymdeithas wedi ei thrawsblannu o gyffiniau'r Berwyn i gymoedd y de.
Un o gryfderau pennaf y nofel yw'r dafodiaith a geir ynddi. Mae'n gwbl ganolog i'w llwyddiant a'i phwrpas, a chredaf mai pleser pur fyddai gwrando ar rywun sy'n gyfarwydd â'r dafodiaith yn darllen y nofel yn uchel. Ychwaneger at hyn y cyfoeth o idiomau sy'n britho'r gyfrol. Gobeithio y bydd gennym gopi sain o'r gwaith yn fuan. Rhaid nodi nad nofelydd yn unig yw Mihangel Morgan. Mae hefyd yn awdur straeon byrion o'r radd flaenaf. Weithiau gellir dadlau mai plethwaith o storïau unigol yw sylfaen y nofel hon.
Cryfder arall Pantglas yw ei chymeriadau. Mae yna lu ohonynt (bron na ellid awgrymu fod yna ormod efallai). Ond yn sicr, ni welwyd cymeriadau mor lliwgar â'r rhai hyn yn Llanwddyn nac yn unrhyw lan arall yng Nghymru erioed o'r blaen. Yr amlycaf, heb os, yw Cati'r Siop, John 'Pantglas' Jones, Pedws Ffowc y Wrach, Estons y Gof, Popi y Butain, Pitar Ŵad a Gwyneth Cefn Tylchau, yr hen wraig sy'n amharod i gefnu ar ei chynefin pan ddaw hi'n amser i bawb adael. Mae yna hefyd gi neu ddau sy'n haeddu sylw.
Gwneir defnydd helaeth o hen chwedlau a llên gwerin. Mae hynny yn ei dro yn pwysleisio'r cwlwm cyntefig sy'n bodoli rhwng y bobl hyn sy'n byw yng nghysgod yr argae a'r tir tan eu traed. Mae yna ganrifoedd o wareiddiad tan fygythiad yma.
Mae'r dyfyniadau ar ddechrau'r nofel gan awduron mor amrywiol â Harri Webb, R. S. Thomas, John Evans, Watcyn L. Jones ac W. G. Sebald yn brawf o'r effaith gafodd boddi cymoedd ar ein meddylfryd ac fel y bu i hynny gael ei adlewyrchu yn ein llenyddiaeth. Llanwddyn oedd y cyntaf mewn cyfres o gymoedd Cymreig a gafodd eu boddi. Fe'i dilynwyd gan Gwm Elan, Tryweryn, Clywedog ac eraill. Ychydig o brotestio a fu ar y dechrau ond fe drodd y cyfan maes o law yn bwnc gwleidyddol llosg.
Mae'r cyd-destun gwleidyddol yn bwysig iawn i'r nofel hon. Mae hefyd yn stori sy'n mynd yn dywyllach ac yn dywyllach wrth fynd yn ei blaen, ac wrth i'r gymdeithas gael ei dinistrio a'i chwalu. Gellir synhwyro fod yna ddiawledigrwydd cyntefig ar waith.
Yr hyn ysgogodd Mihangel Morgan i ysgrifennu'r nofel, mae'n debyg, yw fod hen dad-cu a hen fam-gu iddo wedi byw yng nghysgod yr argae yn Llanwddyn a phriodi yn yr eglwys leol. Hyd y gwn i, dyma'r tro cyntaf erioed i hanes boddi'r cwm fod yn sail i nofel Gymraeg. Ond mae'r nofel yn fwy na hynny hefyd. Mae hi'n tystio'n groyw iawn i'r chwalu a'r ecsbloetio a fu ar gymunedau Cymru dros y ganrif a hanner ddiwethaf. Fe ddigwyddodd hynny nid yn unig yn Llanwddyn, Tryweryn a Chlywedog, ond yn Rhydcymerau a Mynydd Epynt, a'r holl gymunedau hynny trwy'r wlad a gafodd eu anrheithio gan ddiboblogi a drwg-effeithiau hynny.
Mae gennym ym Mihangel Morgan awdur dyfeisgar a bywiog sydd yn mynd o nerth i nerth. Fe ddylid ychwanegu fod y lluniau gan Ruth Jên hefyd yn cyfrannu'n helaeth at lwyddiant y nofel.
**Dafydd Morgan Lewis**

Adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 31 Ionawr o dan lywyddiaeth y cadeirydd y Cyng. Dewi James. Yn dilyn awgrym Cyngor Ceredigion ein bod yn creu Gwefan, a'r cynnig o gymhorthdal o £500, penderfynwyd ein bod yn gofyn am gymorth Technoleg Taliesin i ymgymryd â'r gwaith yn hytrach na chwmnïoedd o Loegr.

Mae'r gwaith o gwteri cae chwarae Tregerddan wedi ei gwblhau yn llwyddiannus gan ymgymerwr profiadol, a phenderfynwyd anfon llythyr o ddiolch i Brifysgol Aberystwyth sydd bellach yn rheoli IBERS, y tirfeddianwyr. Mae Cymdeithas Trigolion Bryncastell wedi gwneud cais i Gronfa Eleri am gymhorthdal tuag at offer chwarae mewn cydweithrediad â'r Cyngor.

Yn ei adroddiad misol cyfeiriodd y Cyng. Paul Hinge at y difrod diweddar gan ystormydd ar arfordir Clarach. Mae'r bont bren wedi derbyn cryn ddifrod, a bu rhaid symud tri theulu o'u cartrefi am gyfnod, ond yn rhyfedd iawn yr afon a wnaeth y difrod mwyaf a hynny yng nghyffiniau y Pentre Gwyliau. Man arall a ddioddefodd oedd cyffiniau Plas Wallog. Mae lle i gredu fod y morglawdd newydd sydd yn arbed y Borth yn cael effaith i'r gwrthwyneb mewn ardal fel Wallog.

Mae mwy o arwyddion wedi eu gosod ar y ffyrdd i ddynodi lleoliad gwaith Bont-goch, hyn yn arbed loriau rhag defnyddio ffyrdd llai, megis y Dolau a'r Lôn Groes. Mae gwaith dros dro wedi ei wneud i lanw tyllau ar y ffyrdd hyn. Bu rhai mannau heb olau yn ddiweddar, ond credir mai mellten oedd yn gyfrifol.

Cwynwyd bod bagiau ysbwriel wedi eu taflu ar ochr ffordd y banc sy'n dilyn i fyny o'r Lôn Groes.

Eglurodd y Cyng. Hinge oblygiadau'r Gyllideb a'r rhesymau am y codiad yn y dreth o 5%. Pwysleisiodd fod yna amseroedd anodd o'n blaen. Ar y pwnc Iechyd, dywedodd y bydd rhaid i ni gyd ymladd ymlaen i gadw ein hysbytai a'n gwasanaethau presennol.

Derbyniwyd cynlluniau amlinellol y cais am godi 27 o dai ar yr ochr ogleddol i Gae'r Odyn. Unwaith eto mae'r Cyngor yn pwysleisio fod ymgymerwyr lleol yn cael blaenoriaeth i wneud y gwaith, bod pobl leol ac o fewn y dalgylch yn cael cartrefi, a bod y ffin yn glir oddi wrth yr ardal chwarae Maes Chwarae Rhydypennau.

Penderfynwyd ar y praesept am y flwyddyn 2014-2015. Drwy godi 3% bydd hynny yn golygu bod Tirymynach yn derbyn £16,000 yn hytrach na'r £15,500 presennol.

Dyma'r noson pryd y dosberthir rhoddion i elusennau lleol. Penderfynwyd fel a ganlyn eleni: Ffrindiau Cartref Tregerddan £150, *Y Tincer* £350, Maes Chwarae Rhydypennau £500, Pwyllgor Henoed £250, Mynwent y Garn £200, Mynwent Noddfa £175, Clwb Hoci Bow Street £100, Cylch Meithrin Rhydypennau £150, Ysgol Rhydypennau £100, Ambiwlans Awyr Cymru £200, Neuadd Rhydypennau £1000, CAB £200, Clwb Ffermwyr Ieuanc Tal-y-bont £100, Noson Tân Gwyllt £200, Sioe Arddwriaethol Rhydypennau £100.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 27 Chwefror.**

# Oedfa Gomisiynu Zoe Glynne Jones Menter Gobaith: Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion

Ar fore dydd Sul, 9fed Chwefror, daeth tyrfa luosog ynghyd i gapel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth i oedfa gomisiynu Zoe Glynne Jones, Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuenctid Menter Gobaith, Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigon. Croesawyd y gynulleidfa i Seion yn sŵn byrlymus y gerddorfa a ffurfiwyd o blith ieuenctid eglwysi'r ardal o dan arweiniad Llio Penri. Fe'i cynorthwywyd gan Mary Jones Morris oedd yn cyfeilio ar y piano.

Dewi Hughes, Cadeirydd y Fenter, oedd yn gyfrifol am lywyddu'r Oedfa ac am gomisiynu Zoe yn ffurfiol. Llwyddodd Dewi i osod cywair hyfryd iawn a bu'r oedfa ar ei hyd yn un hwylus a llawen. Wedi'r comisiynu cafodd Zoe gyfle i ymateb ac i rannu ei hawydd i roi cariad Crist ar waith ac i gynorthwyo plant ac ieuenctid yr ardal i ddod i adnabod Iesu yn Arglwydd ac yn Waredwr. Yn sicr creodd argraff arbennig ar y gynulleidfa â'i phersonoliaeth gynnes ac hawddgar.

Dr Owain Edwards, Coleg y Bala a roddodd yr anerchiad yn seiliedig ar yr alwad i fod yn ddisgyblion i'r Arglwydd Iesu. Llwyddodd i ennyn ymateb arbennig gan y plant drwy gyfrwng lluniau pwerpwynt, sgwrs a chân hynod bwrpasol. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan rai o fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, sef Angharad Jenkins, Anest Evans, Gwilym Tudur a Robin Powell-Davies. Offrymwyd gweddi benodol dros Zoe a'r Fenter gan y Parchedig Nan Wyn Powell-Davies, Swyddog Bywyd a Thystiolaeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Cyhoeddwyd y Fendith gan y Parchedig Andrew Lenny.

Wedi'r oedfa cawsom gyfle i gymdeithasu dros baned o de yn y festri. Cyfanswm yr offrwm a dderbyniwyd er budd *Gobaith i Gymru* oedd £314. Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i gefnogi'r oedfa a dymunwn bob bendith ar waith y Fenter.



Rhes gefn: O'r chwith i'r dde: Y Parchedigion Judith Morris, Wyn Morris a Nan Wyn Powell-Davies; Anest Evans, Angharad Jenkins Rhes flaen: O'r chwith i'r dde: Robin Powell-Davies, Gwilym Tudur, Dr Owain Edwards; Zoe Glynne-Jones, Dewi Hughes, Y Parchg Andrew Lenny.

**ytincer@googlemail.com**

# Ysgol Penrhyn-coch

### Coginwyr ifanc

Llongyfarchiadau i Charlotte Ralphs ac Elisa Martin am ddod yn gyntaf ac yn ail yng nghystadleuaeth Cogurdd yr ysgol. Diolch i Mrs Watkins (cogyddes yr Ysgol) am feirniadu. Pob lwc i ti Elisa a fydd yn cynrychioli yr ysgol yn y rownd ranbarthol.

### Het Milwr a'r Twtw Pinc

Braf oedd croesawu Cwmni Theatr Arad Goch atom ar gychwyn eu taith o amgylch ysgolion de Orllewin Cymru. Cafwyd hanes merch wrth iddi gael atgofion o fywyd plentyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Dim ond un cymeriad oedd yn y ddrama a chafwyd perfformiad arbennig. Ar ddiwedd y sioe cafwyd cyfle i gael gael sesiwn trafod ynghyd â gweithdy pwrpasol. Diolch i'r actorion ac i Gwmni Arad Goch am y perfformiad.

### Ffilmio

Fel rhan o waith Het Milwr a'r Twtw Pinc, bu unigolion o Gwmni Arad Goch wrthi yn gweithio gyda disgyblion yr ysgol ar greu blog arbennig. Yn ystod y bore, cawsant gyfle i ffilmio a holi Mrs Mair Evans ar ei phrofiadau fel plentyn ym mhentre Bronnant yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'r blog erbyn hyn yn fyw ar y rhyngrwyd a gellid ei weld ar http://www.youtube.com/watch?v=JIaUMiHaAbE&list=UUbVDJ5An2N1TbfPV9zmAOmQ&feature=c4-overview
Diolch i bawb a fu'n rhan o'r prosiect ac am roi'r cyfle i'r disgyblion.

### Agor Drysau

Yn ystod mis Ebrill bydd Gŵyl Agor Drysau Arad Goch yn cymryd lle yn Aberystwyth. Gŵyl Celfyddydau Perfformio Cymru i Gynulleidfaoedd Ifanc yw Agor Drysau, ac fe'i trefnir gan Gwmni Theatr Arad Goch bob dwy flynedd. Bwriad yr Ŵyl yw rhoi cyfle i blant, pobl ifanc a theuluoedd Cymru i brofi rhai o'r goreuon ymhlith y celfyddydau perfformio rhyngwladol, yn ogystal â rhoi cyfle i ymwelwyr o dramor i brofi cyfoeth celfyddydau perfformio Cymru. Bu i'r ysgol dderbyn y braint o gydweithio gyda'r Bardd Eirug Salisbury i greu cerdd groeso arbennig. Aethpwyd ati wedyn i greu cyflwyniad arbennig a gellir gweld y croeso gorffenedig ar y we. Dyma'r cyfeiriad. http://www.youtube.com/watch?v=vrTPGosBkYQ

### Llyfrgell Genedlaethol

Fel rhan o waith y tymor cafwyd ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol. Tra yno cafwyd cyfle i weld gwaith arlunwyr amrywiol oedd yn yr oriel. Bu'r disgyblion wrthi yn sgetsio enghreifftiau eu hunain. Diolch i Rhodri Morgan am ei barodrwydd i'n derbyn ac am ein tywys o amgylch yr Oriel.

### Gwellhad Buan


Gwellhad buan i Mrs Lynn Jones a gafodd ddamwain yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen i'w chael yn ôl yn yr ysgol yn fuan.

### Gala Nofio

Bu nifer o ddisgyblion yn cymryd rhan yng Ngala Nofio Ysgolion yr ardal. Llongyfarchiadau i bawb fu wrthi yn nofio a diolch i bawb fu wrthi yn barod i helpu a chynorthwyo gyda'r trefniadaeth.

### Pêl rwyd

Aeth tim pêl rwyd yr ysgol i lawr i Ganolfan Plas-crug i gymryd rhan yn nhwrnament pêl rwyd yr Urdd, Cylch Aberystwyth. Llwyddwyd i ennill rhai gêmau ond collwyd un gêm ac felly ni lwyddwyd i fynd drwodd i'r rownd nesaf. Da iawn i'r holl dîm ac i Miss Hall am eu hyfforddi.


Matthew Martin yn dangos i'r disgyblion sut i fynd ati i greu llythrennau graffiti fel rhan o waith ar ein Thema "Yr Oriel".


Disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cymryd rhan yn Winter Watch y BBC


Disgyblion yr ysgol yn cael brecwast yn IBERS

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Nofio

Mae mis Ionawr yn fis prysur o ran cystadlu yn y pwll nofio. Cynhelir dwy gala leol ac mae'r plant yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gystadlu yn erbyn ysgolion eraill cylch Aberystwyth. Bu plant Ysgol Craig yr Wylfa'n cystadlu'n frwd yn erbyn plant o ysgolion eraill y cylch unwaith eto eleni. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu ac yn enwedig i'r canlynol am gyrraedd y gala terfynol –

Sam Davies 1af Rhydd Bechgyn Blwyddyn 6
Rhys Bishop 5ed Cefn Bechgyn Blwyddyn 6
Joshua Williamson-Evans 2il Broga Bechgyn Blwyddyn 5
Sam, Rhys, Joshua, Louis 4ydd Cyfnewid Cymysg Bechgyn Blwyddyn 6

Mae tair ysgol y bartneriaeth (Ysgol Craig yr Wylfa, Tal-y-bont a Llangynfelyn) wedi bod yn brysur iawn dros y mis diwethaf. Yn ogystal â dod at ein gilydd i gystadlu, rydym wedi mynychu gweithdai a pherfformiadau hefyd.

### Llyfrgell Genedlaethol

Yn y Llyfrgell Genedlaethol cafodd plant Blwyddyn 5 a 6 y fraint o glywed Michael Harvey, storïwr proffesiynol yn adrodd stori Taliesin mewn ffordd ddiddorol ac unigryw. Cawsom wybod am hanes Ceridwen yn creu'r swyn ar gyfer ei mab ond bod diferion o'r swyn wedi disgyn ar fys Gwion. Bu cwrso mawr wedyn lle trodd Gwion i ysgyfarnog, pysgodyn, colomen a hedyn o wenith cyn cyrraedd Tre Taliesin yn y diwedd. Roedd y gweithgaredd yn rhan o'r cyfle i weld pedair o lawysgrifau pwysicaf Cymru gyda'i gilydd yn y Llyfrgell - Llyfr Du Caerfyrddin a Llyfr Taliesin o'r Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llyfr Aneirin o Lyfrgell Ganolog Caerdydd a Llyfr Coch Hergest o Goleg yr Iesu, Rhydychen. Roedd y gweithgaredd hefyd yn rhan o Wythnos Genedlaethol Adrodd Stori.

Yn y cyfamser bu plant Blwyddyn 3 a 4 y tair ysgol yn edrych ar dirluniau o Gymru yn Oriel Gregynog. Roedd hyn yn gyfle i weld nifer o luniau gwych gan artistiaid enwog gan gynnwys Richard Wilson a Kyffin Williams.

### Arad Goch

Cynhyrchiad Cwmni Theatr Arad Goch ar hyn o bryd yw 'Het Milwr a'r Twtw Pinc' ac fe gafodd plant Cyfnod Allweddol 2 y tair ysgol gyfle i weld y perfformiad yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Mae'r sioe wedi ei seilio ar yr Ail Ryfel Byd ac yn arbennig ar effaith y rhyfel ar deulu'n byw yng ngorllewin Cymru. Cawsom wybod am ddynion yn gorfod mynd i ymladd, am oedolion yn gorfod symud o Lundain i osgoi'r bomio ac am blentyn yn gorfod symud o Abertawe i fyw ar fferm yn Sir Gaerfyrddin. Roedd cysylltiad amlwg gyda'r presennol hefyd gyda chyfeiriad at y rhyfel presennol yn Afghanistan.

Lowri Sion yw'r unig actores yn y sioe a llwyddodd i greu naws arbennig o'r cychwyn gan bortreadu nifer o gymeriadau gwahanol yn ardderchog. Roedd y plant a'r oedolion a welodd y sioe wedi eu plesio'n fawr – diolch yn fawr Arad Goch.

### Y Ddarlith Wyddoniaeth

Bob blwyddyn mae'r Brifysgol yn trefnu darlith ddiddorol i gyflwyno elfennau o wyddoniaeth. Cafodd plant Cyfnod Allweddol 2 dipyn o hwyl yn gweld y gwahanol arbrofion diddorol eleni eto a bu rhai o'r plant yn ddigon ffodus i fynd ar y llwyfan i gynorthwyo wrth greu arbrawf!

### Cyfnod Sylfaen

Yn ystod y mis aeth plant y Cyfnod Sylfaen ar ymweliad i'r dref. Yn gyntaf aethom i Lyfrgell y Dref i gael stori gan y Llyfrgellydd Plant - Delyth Huws. Roedd yn brofiad arbennig i'r plant fynd i weld y llyfrgell newydd. Yna aethom draw i Amgueddfa Ceredigion i weld model o gastell y dref a chael cyfle i fod yn dditectifs hanes. Wedyn roedd hi'n amser i fynd i weld y castell go iawn. Cafodd pawb amser wrth eu bodd yn crwydro ac ymchwilio.

### Peter Karrie

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae plant yr ysgol wedi cael profiad arbennig o gael gwersi canu gyda Peter Karrie, y canwr enwog o Phantom of the Opera yn y West End. Ar hyn o bryd, mae'n teithio o gwmpas neuaddau bychan Cymru yn cynnal cyngherddau a bydd plant yr ysgol yn ymuno gydag ef i gynnal cyngerdd yn y Neuadd Gymunedol ar nos Sadwrn 15 Chwefror.

### Muriel Delahaye

Ym mis Ionawr, roedd yr ysgol yn ffodus iawn o gael cwmni'r artist lleol Muriel Delahaye am brynhawn. Roedd y plant wrth eu bodd yn gofyn cwestiynau iddi ac roedd eu hatebion yn ddifyr a doniol. Esboniodd i ni sut mae'n defnyddio'r môr yn gefndir i'w gwaith a'r ffaith ei bod yn hoffi dangos emosiynau gwahanol ar wynebau'r cymeriadau yn y llun. Roedd yn brynhawn diddorol iawn.

Siop
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

Gwesty'r Llew Du
Black Lion Hotel
Blwyddyn Newydd Dda
a phob hwyl yn 2014!
Gwnewch hi yn flwyddyn
i'w chofio . . .
Bwyd Da . . . Cwmni Da . . .
Talybont, Aberystwyth
01970 832 555
gwestyllewdu.com

Gwersi Piano i Blant
Ffon: 07581464666

# Ysgol Pen-llwyn

### Ymweliadau

Buodd dosbarth 2 yn ddiweddar am daith i Aberystwyth. Gan fod y disgyblion yn dilyn thema “Yr Oriel” aethom ar daith i’r Llyfrgell Genedlaethol er mwyn cael taith tu ôl y llenni ac hefyd er mwyn gweld y gwaith pwysig a oedd yn cael ei arddangos yn Oriel Gregynog. Fe welon ni lawer o luniau gan Turner, Kyffin Williams a Richard Wilson. Roedd y plant wedi mwynhau gweld y lluniau yn cael eu harddangos er mwyn eu gwerthfawrogi yn well. Aethom wedyn i fyny i Ganolfan y Celfyddydau er mwyn gweld lluniau cyfoes Siani Rhys James. Mae’r plant bellach wrthi yn gwneud amrywiaeth o waith ar yr Oriel, ac yn trefnu arddangosfa ar y cyd efo Ysgol Penrhyn-coch.

Buodd Dosbarth 1 ar daith hefyd. Buon nhw eto i’r Llyfrgell Genedlaethol er mwyn gweld enghreifftiau o luniau o Gestyll, oherwydd Cestyll a Dreigiau yw eu thema nhw. Fe gawson nhw gyfle i weld tu ôl i lenni y Llyfrgell Genedlaethol. Fe aethon nhw hefyd i Amgueddfa’r Dre ac i Lyfrgell y dref er mwyn gwrando ar stori am Gastell. Ymweliadau diddorol a gwerth chweil.

### Aml Sgiliau

Treuliodd dosbarth 2 y prynhawn yn ddiweddar ar faes Astro Turf y Brifysgol gogyfer â gŵyl Aml Sgiliau. Roedd llawer o blant lleol yno yn profi amrywiaeth o gampau a sgiliau chwaraeon a oedd yn amrywio i sgiliau pêl-droed, hoci, pêl fasged, ymarfer corff ac ati. Erbyn diwedd y prynhawn roedd pawb allan o wynt, ond wedi mwynhau yn fawr iawn.

### Comenius

Ar ddechrau mis Chwefror aeth Mr Evans a Mrs Davies i Ffrainc. Dyma’r drydedd cyfarfod ar gyfer ein cywaith Comenius “Tell Me Your Story” - sef prosiect ar y cyd efo’n ysgolion partner yn Ffrainc, Sweden, Denmarc ac Iwerddon. Cafwyd wythnos fuddiol iawn yn dysgu am ddiwylliant a hanes ardal Limoges, de-orllewin Ffrainc. Daethant â llawer o luniau a straeon yn ôl i rannu gyda’r plant. Edrychwn ymlaen i groesawu staff a disgyblion o ysgolion y gwledydd hyn yma yng Ngheredigion ym Mis Mai. Bydd hyn yn adeg cyffrous i’r plant, rhieni a’r ysgol. Mae’r plant wedi bod yn cydweithio gyda’i gilydd wrth rannu cardiau Nadolig a negeseuon, trafod eu hoff eitemau personol a rhannu gyda’r ysgolion eraill.



Cyfarfod Croesawu Comenius



Gwibdaith Dosbarth 1 - Astudio lluniau o gestyll

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i’w llogi
Cyflenwi cerig mán
01970 820149
07980 687475

# Ysgol Rhydypennau

Mae'r prysurdeb yn yr ysgol yn parhau gyda nifer o ymweliadau, digwyddiadau a gweithgareddau amrywiol.

### Arad Goch

Yn ystod y tymor hwn mae plant blynyddoedd 3-6 wedi mwynhau sesiynau difyr iawn dan ofal Mari Turner, Arad Goch. Trefnwyd y sesiynau er mwyn hybu sgiliau iaith mewn ffyrdd ymarferol. Hoffai'r ysgol ddiolch i Mari am ei gwasanaeth arbennig.

### Rasus Rhydypennau

Yn hytrach na'r Bingo arferol; trefnodd pwyllgor Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol 'Noson Rasus' yn neuadd yr ysgol. Gyda chymorth technoleg a brwdfrydedd rhieni a phlant yr ysgol cafwyd noson lwyddiannus tu hwnt o ran hwyl a mwynhad heb anghofio codi swm sylweddol at goffre'r ysgol. Gobeithio cynnal nosweithiau tebyg eto yn y dyfodol.

### Diogelwch

Diolch i Gwyndaf Lloyd, Swyddog Diogelwch Tân Ardal Aberystwyth am alw mewn i'r ysgol yn ddiweddar er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant o beryglon tân yn y cartref. Yn ystod y sesiynau amrywiol o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6, dysgodd y plant sut i ddianc yn ddiogel o'u cartref petai yna dân, beth i ddweud wrth ffonio mewn argyfwng a chynllunio ble i osod larwm tân yn y tŷ.

### Hanes

Fe aeth dosbarth Mrs Williams ar daith i Ganolfan Y Barcud yn Nhregaron yn ddiweddar. Pwrpas y daith oedd rhoi cyfle i'r plant fynychu ysgol o'r cyfnod Fictorianaidd er mwyn profi yn uniongyrchol sut oedd plant o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn derbyn eu haddysg. Yn ystod yr ymweliad bu'r plant yn derbyn gwersi nodweddiadol o'r cyfnod drwy ddulliau addysgu Fictorianaidd. Erbyn diwedd y dydd roedd y plant yn falch o ddychwelyd nôl i'r ganrif bresennol!

### Diwrnod ar gyfer newid

Cynhaliwyd 'Diwrnod UNICEF ar gyfer Newid' ar y 7ed o Chwefror. Cafodd y plant wisgo dillad lliwgar ar y dydd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r achlysur a chodwyd swm sylweddol er mwyn helpu plant tlawd dros y Byd.

### Clwb Cant

Mae'r amser wedi cyrraedd eto i ymuno â Chlwb Cant yr ysgol. Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol unwaith eto yn parhau i wahodd rhieni, athrawon a ffrindiau'r ysgol i ymaelodi â'r Clwb 100. Mi fydd yr aelodaeth yn parhau, fel llynedd, am flwyddyn gan ddechrau ym mis Mawrth a gorffen ym mis Rhagfyr.

Bydd hi'n angenrheidiol i bob aelod dalu tâl aelodaeth blynyddol o ddeg punt a fydd yn talu am gost pob cyfle i ennill yn ystod y cyfnod. Cyfanswm yr holl arian sef gwobrau'r flwyddyn fydd pum cant punt. Bydd yr holl elw yn mynd at bwyllgor CRhA ac felly tuag at yr ysgol. Mi fydd y gwobrau misol fel a ganlyn:

1af- £25 2il-£15 3ydd-£10

Os am ymuno â'r clwb cysylltwch â Delyth Morgan ar 01970 820656

### 'Syniad da – llongyfarchiadau i'r tri enillwr'

'Beth am gael poster newydd i hyrwyddo Cymraeg i Oedolion?' 'Syniad da, ond sut?' 'Beth am ofyn i blant blwyddyn 3-6 ddylunio poster i ni?'

A dyna beth wnaeth Canolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru. Cafwyd cynllun gwych gan Luke Wakelin, Ysgol Rhydypennau. Daeth Llywelyn Bowen Jones yn ail, ac Owain Ifans yn 3ydd. Llongyfarchiadau i'r tri ohonynt.

Enillodd Luke docyn llyfr £25 i brynu llyfrau o'i ddewis ei hun, yn ogystal â £50 i'r Ysgol. Roedd Llywelyn ac Owain wedi derbyn tocyn llyfr £5 yr un fel gwobr.

Defnyddir syniad Luke i greu poster i hyrwyddo Cymraeg i Oedolion yng Nghanolbarth Cymru yn 2014.



Hoffem ddiolch i'r holl blant oedd wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth, a hefyd i'r ysgolion am ei hyrwyddo.

Os hoffai rhywun mwy o wybodaeth am gyrsiau Cymraeg, yn enwedig cyrsiau i'r teulu, gysylltwch â Chanolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru 0800 876 6975 cymraegioedolion@aber.ac.uk www.dysgucymraegynycanolbarth.org



Gwersi Cyfnod Fictoria



Sesiwn ymarferol gyda Mari Turner.




Noson Rasus



Diogelwch tân gyda Gwyndaf Lloyd.

Am fwy o wybodaeth cliciwch ar www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk

# Tasg y Tincer



Alys Lansley-Lewis

Diolch i bawb fu'n lliwio'r llun o'r plant yn croesawu 2014. Am luniau penigamp! Dyma'r enwau: Megan Lois Griffiths, Llandre; Alys Lansley-Lewis, Y Borth, Beca Davies, Bow Street; Nia Jones, Bont-goch; Mirain Wyn Evans, Tal-y-bont; Llew Schiavone, Aberystwyth; Lois Medi, Llandre; Ania Evans, Capel Bangor; Gwawr Morgan, Bow Street. Diolch hefyd i ti, Llio Tanat, Llandre, am dy lun hyfryd o Siôn Corn.

Wel, enw Alys ddaeth o'r het y tro hwn. Llongyfarchiadau mawr!

Does dim angen i mi ofyn i chi beth sy'n arbennig am **1 Mawrth**. Ie, Dydd Gŵyl Ddewi, wrth gwrs. Mae'n siŵr eich bod wrthi fel fflamia'n paratoi at steddfod neu gyngerdd neu oedfa. Ond beth sy'n arbennig am **4 Mawrth** eleni, tybed? Wel, Dydd Mawrth Ynyd yw'r enw ar y diwrnod hwn, ac enw arall arno yw Dydd Mawrth Crempog. Fyddwch chi'n cael crempog ar 4 Mawrth? Dyma un o fy hoff fwyd – efo trwch o siwgr a lemon! Mae Dydd Mawrth Ynyd yn dod 40 diwrnod o flaen y Pasg, ac mae'n cael ei alw'n 'Mardi Gras' mewn rhai gwledydd, neu 'Dydd Mawrth Tew'. Flynyddoedd maith yn ôl byddai pobl yn bwyta pob math o ddanteithion blasus ar y diwrnod hwn, a dim ond bwyta bwydydd plaen, syml wedi hynny tan y Pasg. Mwynhewch ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi, a mwynhewch eich crempog ar 4 Mawrth.

Y mis hwn, lliwiwch lun y bachgen sydd wrthi'n coginio. Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn dydd Gŵyl Ddewi – Mawrth 1af! a ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed


M THOMAS
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

JONATHAN JAMES LEWIS
Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES



ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 366 | CHWEFROR 2014